# Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig

*Cwbl Breifat a Chyfrinachol*

# CYSUR 4/2019

**Dyddiad y cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd:**

**12 Gorffennaf 2022**

Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant

**CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru**

**Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig Parthed:**

**CYSUR 4 2019 (Sir Gâr)**

**Amlinelliad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad**

**Cyd-destun Cyfreithiol**

Fe gomisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant estynedig gan CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unol â deddfwriaeth statudol a nodir yn adran 139 *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*[1] a'r canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf honno *Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant*[2] (Llywodraeth Cymru, 2016).

Bodlonir y meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn dan Bennod 6, *Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig*:

Rhaid i Fwrdd gynnal Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig yn unrhyw un o'r achosion canlynol lle gwyddys neu lle amheuir bod plentyn wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso a bod y plentyn:

- Wedi marw; neu
- Wedi dioddef anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- Wedi dioddef nam difrifol a pharhaol ar ei iechyd neu ei ddatblygiad; **a**

bod y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu'n blentyn sy'n derbyn gofal (gan gynnwys rhywun sydd wedi troi'n 18 oed ond a oedd yn blentyn sy'n derbyn gofal) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn –

- Dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
- Y dyddiad pan fo Awdurdod Lleol (ALl) neu bartner perthnasol[3] yn canfod bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol ar ei iechyd a'i ddatblygiad.

Caiff y Meini Prawf ar gyfer adolygiadau ymarfer plant eu nodi yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*[4].

Diben yr adolygiad yw adnabod gwersi ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. Mae'n cynnwys ymarferwyr, rheolwyr ac uwch swyddogion yn y broses o archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau gyda phlentyn a theulu. Mae allbwn yr adolygiad wedi'i fwriadu i ysgogi dysgu proffesiynol a sefydliadol a hybu gwelliant mewn ymarfer rhyngasiantaethol ac amddiffyn plant yn y dyfodol. Dylai gynnwys yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad, gan gynnwys amlygu

[1] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
[2] Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – C2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016)
[3] Mae Awdurdod Lleol neu bartner perthnasol yn golygu unigolyn neu gorff y cyfeirir ato yn A.28 *Deddf Plant 2004* neu gorff a grybwyllir yn a.175 *Deddf Addysg 2002*.
[4] Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015

ymarfer effeithiol ac ystyriaethau ynglŷn â'r hyn y mae angen ei wneud yn wahanol i wella ymarfer yn y dyfodol. (*Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant* (Llywodraeth Cymru, 2016[5]).

Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig hwn yn **Atodiad 1.**

**Llinell Amser**

Y llinell amser y cytunwyd arni ar gyfer yr adolygiad yw rhwng 5 Rhagfyr 2016 ac 18 Mehefin 2018.

Mae'r llinell amser ar gyfer yr adolygiad hwn yn ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod o 12 mis a argymhellir oherwydd y digwyddiad critigol. Mae hyn i'w briodoli i natur hanesyddol a chymhleth hirsefydlog yr amgylchiadau o fewn yr achos. Mae'n cynnwys digwyddiadau a gafwyd dros nifer o flynyddoedd, cyn yr atgyfeiriad a rybuddiodd asiantaethau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ynghylch pryderon difrifol ym mis Mawrth 2018. Mae ystyriaeth i'r wybodaeth gyd-destunol hanesyddol yn hanfodol er mwyn gwneud synnwyr o brofiadau personol y plant a'r hyn a arweiniodd at y cam-drin rhywiol a oedd yn pontio'r cenedlaethau.

Mae'r oedi cyn dechrau a chwblhau'r adolygiad hwn wedi digwydd oherwydd y buwyd yn disgwyl am ganlyniadau achosion troseddol a gofal cymhleth cyfochrog, sydd wedi galluogi'r Bwrdd i fod â gwybodaeth well am natur gymhleth iawn y niwed a ddioddefwyd gan y plant.

Cafodd y llinellau amser, cronolegau a dadansoddiadau a gyflwynwyd gan yr holl asiantaethau eu trafod yn fanwl yn ystod y cyfarfodydd panel a digwyddiadau dysgu ac maent wedi goleuo'r gwersi sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

**Amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad**

Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar blant ac wyrion Oedolyn Y. Mae'n ymwneud â cham-drin rhywiol o fewn y teulu (llosgach) yn erbyn dwy genhedlaeth o blant ac oedolion. Daeth yr achos i'r amlwg yn 2018, pan wnaeth un o ferched Oedolyn Y, sef Oedolyn D a oedd yn ddeg ar hugain oed, honiad wrth yr heddlu ei bod wedi bod yn cael ei cham-drin yn barhaus gan ei thad gan ddechrau pan oedd hi'n bedair ar ddeg oed a phara tan iddi adael cartref yn y pen draw. Ar yr adeg honno, roedd amheuaeth y gallai un arall o ferched Oedolyn Y, sef Oedolyn A, fod wedi cael ei cham-drin yn rhywiol gan Oedolyn Y hefyd.

Yn 2018, fe benderfynwyd y byddai'r Awdurdod Lleol (ALl) yn gwneud cais am Orchmynion Gofal mewn perthynas â phlant Oedolyn A, oherwydd y pryderon y gallai hithau fod wedi cael ei cham-drin gan Oedolyn Y. Ar yr un diwrnod, fe gysylltodd yr Heddlu â'r adran i drafod tystiolaeth a gasglwyd o ffonau symudol, a amlygodd fod Oedolyn Y mewn perthynas rywiol gyda'i ferch Oedolyn A a'i fod hefyd yn ceisio cael Oedolyn B, ei wyres, yn feichiog. Ar 18 Mehefin 2018, cafodd Oedolyn A ac Oedolyn Y eu harestio, gweithredwyd y pwerau sydd gan yr Heddlu dan Adran 46 (Deddf Plant 1989)[6] ar y plant ac, wedi hynny, cafodd holl blant Oedolyn A eu rhoi mewn gofal maeth. Yn yr wythnos ganlynol, fe gyflwynodd yr ALl gais i'r llys am Orchmynion Gofal, ac mae'r plant wedi parhau i fod mewn gofal hyd heddiw. Mae'r cynlluniau gofal ar gyfer rhai o'r plant

[5] Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – C2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016)

[6] Mae Adran 46 Deddf Plant 1989 yn rhoi'r pŵer i'r Heddlu symud plant neu eu hatal rhag dod i gysylltiad ag amgylcheddau peryglus.

yn ymwneud â gofal hirdymor ac ar gyfer y plentyn ieuengaf, mabwysiadu. Nid yw'r un o'r plant wedi datgelu honiadau o gam-drin rhywiol.

Ar ôl gwadu dro ar ôl tro bod unrhyw honiadau o gam-drin gan Oedolyn Y yn wir, fe wnaeth Oedolyn A a'i merch Oedolyn B ddatgelu eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol bron yn ddyddiol ers eu harddegau cynnar gan Oedolyn Y. Fe barhaodd Oedolyn Y i wadu ei fod wedi cam-drin ei ferched a'i wyres yn rhywiol. Fe gynhaliwyd profion DNA ar blant Oedolyn A ac ar Oedolyn Y fel rhan o ymchwiliadau'r Heddlu ac Achosion Gofal; canfuwyd mai Oedolyn Y oedd tad chwech o blant Oedolyn A, ond nid yr ieuengaf, sef Plentyn E.

Ar 18 Hydref 2019, cafwyd Oedolyn Y yn euog o dreisio'i ddwy ferch, Oedolyn A ac Oedolyn D, dro ar ôl tro pan oeddent yn blant, a hefyd ei wyres Oedolyn B. Cafodd ddedfryd o 40 mlynedd o garchar.

Mae effaith y cam-drin gan Oedolyn Y ar y plant yn sylweddol ac yn debygol o gael ôl-effeithiau difrifol ar gyfer eu hiechyd a'u llesiant emosiynol yn awr ac yn y dyfodol. Mae amryw asesiadau o'r plant ers eu rhoi mewn gofal wedi cadarnhau lefel y trawma a'r niwed a brofwyd ganddynt a'r effaith sylweddol arnynt. Maent yn bodloni'r meini prawf a nodwyd uchod, sef eu bod wedi dioddef "*nam difrifol a pharhaol ar eu hiechyd a'u datblygiad*". Fodd bynnag, dylid nodi bod pob ymdrech yn cael ei wneud i gynnig cymaint â phosibl o help a chefnogaeth i'r holl ddioddefwyr (yn blant ac oedolion) i'w galluogi i gael adferiad o'r cam-drin y maent wedi'i ddioddef a dod i delerau â'u perthnasoedd teuluol cymhleth. Mae'r cymorth hwn yn cael ei roi'n barhaus a bydd yn gymorth hirdymor.

**Cyfansoddiad y Teulu**

Oedrannau wedi'u cyfrifo o ran beth oeddent ym mis Mawrth 2018 pan godwyd pryderon.

Oedolyn Y **- Tad**: 62 oed

Oedolyn A **- Mam** (Merch Y): - 37 oed

**Plant Y ac A**

Plentyn A oedran: 15

Plentyn B oedran: 11

Plentyn C oedran: 6

Plentyn D oedran: 4

Oedolyn B oedran: 20

Oedolyn C oedran: 22

**Plentyn Oedolyn A**

Plentyn E oedran: 2

**Oedolion Arwyddocaol Eraill**

Oedolyn D – Merch Oedolyn Y a Chwaer Oedolyn A

Oedolyn E – Partner Oedolyn Y

TERFYNOL

Oedolyn F – Tad Plentyn E

**Statws cyfreithiol cyfredol y plant**

Mae'r plant yng ngofal yr Awdurdod Lleol gyda gwahanol drefniadau'n bodoli ar gyfer lleoliadau hirdymor. Digwyddodd y Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol yn 2018 ac fe gofrestrwyd y plant dan y categori 'yn wynebu risg o gam-drin rhywiol'.

**Ymwneud y teulu â'r adolygiad**

Disgwylir, fel rhan o'r broses adolygu, y bydd aelodau o'r teulu'n cael eu gwahodd i gyfranogi, er mwyn iddynt allu ychwanegu mewnwelediad, gwybodaeth a gwersi at y broses. Fe gytunodd y Panel yn wreiddiol y byddai o gymorth ac yn briodol pe bai Oedolyn Y, Oedolyn A, Oedolyn B, Plentyn A a Phlentyn B yn cael eu gwahodd i gyfranogi. Teimlwyd, yn dilyn ymgynghori â gweithwyr proffesiynol a oedd yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r plant, nad oedd y plant ieuengaf yn ddigon hen nac yn deall digon i ofyn iddynt gyfranogi, ac efallai na fyddai ceisio eu cynnwys yn cyd-fynd â'r hyn a oedd orau er eu budd pennaf hwy, ar adeg pan ydynt yn cael cymorth i ddod i delerau â'r hyn sydd wedi digwydd iddynt. Dynododd Plentyn A a Phlentyn B nad oeddent yn dymuno cyfranogi. Ni wnaeth Oedolyn Y ymateb i'r cyfle i gael trafodaeth gychwynnol gyda chadeirydd y panel i drafod sut y gallai ef gyfrannu at yr adolygiad, er y cydnabyddir mai'r disgwyl, o ystyried ei fod wedi gwrthod cydnabod na derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ei weithredoedd yn ôl pob sôn, yw na fyddai unrhyw gyfraniad wedi bod o lawer o werth o ran dysgu gwersi.

Mae panel yr adolygiad yn ddiolchgar tu hwnt i Oedolyn A am gyfrannu at yr adolygiad ac am rannu rhai profiadau ac atgofion anodd iawn yn ystod cyfweliad gyda'r adolygydd arweiniol ac un o aelodau'r Panel, a hwylusodd y cyfweliad. Roedd Oedolyn B wedi cytuno'n wreiddiol i gwrdd â'r adolygydd arweiniol ond wedyn fe benderfynodd beidio â chyfranogi.

Fe hoffai'r Panel fynegi eu gobaith diledryw y bydd cyhoeddi'r adolygiad hwn yn golygu bod y dioddefaint a brofwyd gan holl aelodau'r teulu hwn yn gallu arwain at ddysgu rhai gwersi cadarnhaol, ac y gallant gael rhywfaint o iachâd a diweddglo.

**Cronoleg digwyddiadau**

Mae panel yr adolygiad wedi ystyried sylwadau gan asiantaethau o ran cronoleg y digwyddiadau a gafwyd rhwng 5 Rhagfyr 2016 ac 18 Mehefin 2018, yn ogystal â gwybodaeth gyd-destunol berthnasol yr ystyrir ei bod yn bwysig o'r tu allan i'r cyfnod hwn.

Mae'r wybodaeth ganlynol sydd y tu allan i'r llinell amser wedi'i chynnwys at ddibenion cyd-destunol i oleuo dealltwriaeth am natur y cam-drin y mae a wnelo'r adolygiad hwn ag ef. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei choladu o gofnodion asiantaethau, yn ogystal â gwybodaeth a ddarparwyd gan Oedolyn A.

**Gwybodaeth gyd-destunol berthnasol**

Mae gan Oedolyn Y hanes cymhleth, gyda thair priodas flaenorol a phlant o'r perthnasoedd hynny nad yw wedi cadw mewn cysylltiad â hwy. Mae wedi treulio cyfnod yn y carchar am euogfarn a oedd yn gysylltiedig â byrgleriaeth a difrod troseddol. Yn ei arddegau, bu digwyddiad a oedd yn ymwneud â honiad o ymosod yn anweddus y'i cafwyd yn euog ohono, gan gael gorchymyn goruchwylio am ddwy flynedd.

Yn dilyn cymorth therapiwtig, a chyfnod maith o geisio gwneud synnwyr o'r profiadau yn ystod ei phlentyndod cynnar a'r paratoi helaeth i bwrpas rhyw gan Oedolyn Y dros nifer o flynyddoedd,

TERFYNOL

roedd Oedolyn A yn gallu rhannu atgofion o'i phlentyndod a'i pherthynas ag Oedolyn Y. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar gyfrif personol Oedolyn A a'i chanfyddiad hi am ei hanes o drawma ac o gael ei cham-drin, ac nid yw wedi cael ei thriongli ag unrhyw gofnodion na sylwadau swyddogol.

Yn ôl atgofion Oedolyn A, nes ei bod yn un ar ddeg oed nid oedd hi'n gwybod pwy oedd ei thad biolegol, ac roedd hi'n byw gyda'i mam a'i siblingiaid. Mae hi'n disgrifio plentyndod anhapus ac esgeulus iawn ac yn cofio bod y gwasanaethau plant wedi ymyrryd ar fwy nag un achlysur. Mae hi'n disgrifio'i hun fel plentyn â diffyg maeth, a oedd yn fach am ei hoedran, yn dawel ac yn swil. Mae hi'n gallu cofio cael ei bwlio yn yr ysgol oherwydd ei hedrychiad a hithau'n gwisgo dillad a oedd yn amhriodol i'w hoedran a brynwyd o siopau elusen. Roedd hi'n teimlo nad oedd ar neb ei heisiau ac nad oedd neb yn ei charu ac yn dweud nad oedd ganddi berthynas dda â'i mam.

Fe wnaeth Oedolyn A brofi rhywfaint o ofal cadarnhaol gan un o bartneriaid ei mam, ond roedd yn dreisgar tuag at ei mam a phan wahanon nhw, nid oedd ei mam yn gallu dygymod â gofalu am y plant, felly fe aeth ati i olrhain tad biolegol Oedolyn A a'i chyflwyno hi iddo. Ar y pryd, roedd Oedolyn A yn un ar ddeg oed ond mae hi'n dweud ei bod yn edrych yn llawer iau. Roedd Oedolyn Y yn byw gyda'i bartner, Oedolyn E, ar y pryd. Yn dilyn ymweliadau a gwibdeithiau gyda'i thad ac Oedolyn E, fe symudodd Oedolyn A i fyw gyda hwy'n llawn-amser yn Lloegr pan oedd hi'n ddeuddeg oed. Mae adroddiadau a gafwyd gan yr Awdurdod Lleol yn Lloegr yn amlygu bod Oedolyn A wedi dod yn feichiog pan oedd hi'n dair ar ddeg mlwydd oed. Mae Oedolyn A wedi rhoi genedigaeth i naw o blant, wedi cael pedwar camesgoriad ac wedi cael un plentyn a fu farw yn y crud yn ystod y cyfnod y bu'r teulu'n byw yng Nghymru. Mae Oedolyn A yn disgrifio sut yr oedd hi'n teimlo'n hapus ynglŷn â symud i fyw gydag Oedolyn Y ac Oedolyn E am ei bod wedi'u cael yn garedig, yn gariadus ac yn bobl a oedd yn gallu cynnig gwell gofal nag yr oedd ei mam yn ei gynnig. Fe fwynhaodd hi lawer o brofiadau newydd gyda hwy.

Dywed Oedolyn A fod Oedolyn Y wedi dweud wrthi nad ef oedd ei thad biolegol, er ei fod mewn perthynas gyda'i mam pan aned Oedolyn A. Dywedodd Oedolyn A fod y paratoi i ddibenion rhyw a'r cam-drin rhywiol wedi dechrau'n fuan iawn wedi iddi gael ei chyflwyno i Oedolyn Y. Erbyn ei bod yn ddeuddeg oed, roedd hi'n cael cyfathrach rywiol reolaidd gydag Oedolyn Y ac yn credu ei bod mewn perthynas gariadus gadarnhaol gydag ef. Disgrifiodd sut yr oedd hi'n mwynhau'r berthynas gyfrinachol arbennig ac yn hoffi'r sylw yr oedd Oedolyn Y yn ei roi iddi. Roedd hi'n gwybod bod rhaid i'r berthynas aros yn gyfrinach am bod pawb yn credu mai Oedolyn Y oedd ei thad. Roedd ef yn dweud wrthi y byddai'n mynd i'r carchar pe bai unrhyw un yn dod i wybod ac y byddai Oedolyn A yn colli ei phlant. Dywedodd Oedolyn A ei bod wrth ei bodd yn cael ei babanod ac na fyddai hi'n gwneud unrhyw beth a fyddai'n golygu y byddai'n eu colli.

Fe barhaodd Oedolyn A i fyw gydag Oedolyn Y ac Oedolyn E ac fe gadwodd y gyfrinach ynglŷn â phwy oedd tad ei phlant. Pan fyddai gweithwyr proffesiynol yn ei chwestiynu ynglŷn â thad ei babanod, byddai'n dweud wrthynt naill ai nad oedd hi'n gwybod pwy oedd y tad, neu ei bod wedi syrthio'n feichiog o ganlyniad i 'un noson o garu'. Ar ôl hynny, mae holl blant Oedolyn A wedi byw gydag Oedolyn Y ers eu genedigaeth, ac wedi ystyried Oedolyn Y yn oedolyn arwyddocaol yn eu bywydau. Ceir peth dryswch pa un a oedd y plant yn ystyried Oedolyn Y yn dad ynteu'n dad-cu iddynt gan bod y ffiniau mor niwlog ar yr aelwyd.

Ceir tystiolaeth o Oedolyn Y yn arfer cyfundrefn o reolaeth ar Oedolyn A, a gynyddodd ar un adeg pan gyflwynodd elfen newydd i mewn i'w perthynas.

Dechreuodd Oedolyn Y gyfathrebu gydag Oedolyn A trwy negeseuon e-bost, negeseuon testun a negeseuon eraill dan gochl ymgynghorydd ysbrydol/seicig a oedd yn cyfarwyddo Oedolyn A i

TERFYNOL

gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol gydag Oedolyn Y ac unigolyn arall. Mae Oedolyn A yn disgrifio sut yr oedd arni ofn yr ymgynghorydd ysbrydol/seicig a hithau'n credu mai person go iawn ydoedd a oedd yn dweud wrthi beth i'w wneud ac yn ei bygwth os nad oedd yn cydymffurfio. Fe brofwyd mai rhan o dwyll a gyflawnwyd gan Oedolyn Y oedd y negeseuon mewn gwirionedd, i barhau i reoli a dylanwadu ar Oedolyn A ac i weithredu ar fwy o'i ffantasïau rhywiol ef ei hun.

Fe symudodd y teulu (fel a ddisgrifir uchod) i Dde Cymru ym mis Awst 2015. Cyn hyn, roedd y teulu'n byw mewn rhan arall o Gymru, ond maent wedi byd yn Ne Ddwyrain Lloegr yn bennaf.

**Llinell Amser Digwyddiadau**

Daeth y teulu'n hysbys i'r Gwasanaethau Plant yn Ne Cymru ym mis Rhagfyr 2016, pan ddaeth Oedolyn B i sylw ag anawsterau emosiynol yn y cartref a hithau'n bygwth hunan-niweidio â chyllell. Fe alwyd yr heddlu ac fe wnaethant hwythau anfon atgyfeiriad ymlaen at y Gwasanaethau Plant. Nodwyd ei bod yn cael cymorth gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ar y pryd.

Cafwyd atgyfeiriad dienw gan yr NSPCC ym mis Ionawr 2017, yn honni bod Oedolyn A mewn perthynas gyda'i thad, Oedolyn Y, a bod ei holl blant wedi'u geni o ganlyniad i berthynas losgachaidd. Cynhaliwyd ymchwiliad dan Adran 47 (Deddf Plant 1989) ar y cyd gan y Gwasanaethau Plant a'r Heddlu, a oedd yn cynnwys ymholiadau helaeth gyda'r plant hŷn a'r oedolion yn y teulu. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd strategaeth yn ystod 2017, a'r rheiny'n cynnwys yr holl weithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud â'r teulu. Fe wnaeth Oedolyn A wadu'r honiad ei bod mewn perthynas gyda'i thad a bod y plant wedi cael eu geni o ganlyniad i unrhyw berthynas gydag ef. Ar y pryd, fe wrthododd Oedolyn A ganiatáu profion DNA ar ei phlant. Fe barodd yr ymholiadau ddeuddeng mis. Mewn cyfarfod strategaeth terfynol, dyddiedig 25/10/17, daethpwyd i'r casgliad na allai'r dystiolaeth a oedd wedi cael ei chasglu hyd at y pwynt hwnnw'n gallu ategu'r pryderon a godwyd ac, yn unol â chyngor cyfreithiol, nad oeddent yn cyrraedd y trothwy a fyddai'n galluogi gweithwyr proffesiynol i gychwyn achos cyfreithiol ac felly gynnal profion DNA fel rhan o'r broses. Fe barhaodd y Tîm Diogelu a Phresenoldeb mewn Ysgolion i ymwneud â'r mater ar ôl hyn ac fe gynhaliodd ymweliadau â'r cartref a chyfarfod adolygu gyda'r ysgol.

Ychydig fisoedd yn ddiweddarach, ym mis Mawrth 2018, fe wnaeth un o ferched Oedolyn Y, Oedolyn D, honiad wrth yr Heddlu ei bod hi wedi cael ei cham-drin yn rhywiol gan ei thad. Fe ddatgelodd hi ac wedyn Oedolyn A ac Oedolyn B eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol bron yn ddyddiol ers eu harddegau cynnar gan Oedolyn Y. Fe barhaodd Oedolyn Y i wadu unrhyw achos o gam-drin rhywiol yn erbyn ei ferched a'i wyres. Fe wnaed profion DNA ar blant Oedolyn A lle amheuid mai Oedolyn Y oedd y tad, fel rhan o ymchwiliadau'r Heddlu a'r Achos Gofal. Cafwyd mai Oedolyn Y oedd tad holl blant Oedolyn A, ac eithrio'r plentyn ieuengaf.

Fel rhan o ymchwiliad yr Heddlu a'r achos troseddol, ystyriwyd fod Oedolyn Y wedi paratoi ei ferched a'i wyres i ddibenion rhyw trwy weithredu fel ymgynghorydd ysbrydol/seicig a chyfarwyddo'r hyn y dylent fod yn ei wneud. Oedolyn Y oedd awdur nifer o gyfathrebiadau at Oedolyn A, gan eu cyflwyno fel rhai a oedd yn dod oddi wrth ymgynghorydd ysbrydol/seicig. Roedd yn defnyddio'r negeseuon hyn i barhau i reoli a cham-drin Oedolyn A, gan ddefnyddio'r ymgynghorydd ysbrydol/seicig i gyfarwyddo Oedolyn A i gymryd rhan mewn gweithgareddau a oedd mewn gwirionedd yn cael eu trefnu a'u rheoli ganddo ef. Cafwyd Oedolyn Y yn euog o dreisio'i ddwy ferch dro ar ôl tro pan oeddent yn blant a hefyd ei wyres Oedolyn B a chafodd

TERFYNOL

ddedfryd o garchar am gyfnod sylweddol. Roedd Oedolyn Y wedi bod yn cam-drin ei ddwy ferch yn rhywiol pan oeddent yn blant mewn dau Awdurdod yn Lloegr cyn iddynt symud i Gymru.

O fewn yr Achos Gofal, a ddechreuodd yn 2018 ac a ddaeth i ben yn 2019, fe gynhaliwyd asesiadau seicolegol gyda phedwar o'r plant gan ysbyty plant arbenigol. Amlygodd yr adroddiadau ar yr asesiadau seicolegol a gwblhawyd ym mis Ebrill 2019 fod yr holl blant wedi dioddef niwed sylweddol, a oedd yn cynnwys:

- Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD)
- Cael eu niweidio a'u hesgeuluso'n emosiynol
- Mudandod dethol
- Arwyddion o osgoi, hwyliau isel a gorbryder gwahanu
- Mwy o risg o gamfanteisio rhywiol
- Ffiniau rhywiol gwael
- Gwybodaeth ddryslyd ynghylch pwy yw eu rhieni
- Symptomeg sy'n gysylltiedig â cham-drin rhywiol

**Deinameg a Pherthnasoedd Teuluol**

Mae'n bwysig ein bod yn ystyried natur hanesyddol y cam-drin gan bod hynny'n helpu i oleuo ein dealltwriaeth am weithredoedd Oedolyn A i gelu'r cam-drin a brofodd hi ei hun a phwy oedd tad ei phlant.

Os ydym yn bwrw golwg ar hanes Oedolyn A, gallwn weld ei bod yn blentyn a ddioddefodd o ganlyniad i gael ei cham-drin a'i hesgeuluso yn ei blynyddoedd cynnar a'i bod hi'n fregus pan gwrddodd ag Oedolyn Y gyntaf. Roedd hi'n ddioddefwr anffodus gan fwriadau rheibus Oedolyn Y i'w pharatoi i ddibenion rhyw a'i cham-drin ar adeg pan oedd hi'n dal yn blentyn ifanc a bregus. Roedd Oedolyn Y mewn rôl gyfrifol ac fe gamddefnyddiodd y rôl honno mewn ffordd oportiwnistaidd bron cyn gynted ag y'i cyflwynwyd i'w ferch. Unwaith yr oedd hi wedi'i sefydlu mewn senario gydag Oedolyn Y lle'r oedd yn cael ei cham-drin yn rhywiol a hynny wedi arwain yn gynnar at enedigaeth ei phlant, roedd Oedolyn A yn credu bod ganddi ormod i'w golli pe bai hi'n datgelu gwir natur y berthynas. Roedd hi hefyd yn credu bod y berthynas yn un gadarnhaol iddi hi a'i phlant a disgrifiodd sut yr oedd 'mewn cariad' gydag Oedolyn Y ac yn ei ystyried yn gariad iddi. Roedd Oedolyn A yn teimlo'n genfigennus ynghylch perthynas Oedolyn E gydag Oedolyn Y. Dywedodd Oedolyn A nad oedd hi'n gallu meddwl am unrhyw beth a allai fod wedi rhybuddio pobl am y cam-drin; o bosibl, pe na bai'n meddwl y byddai'n colli ei phlant, yna gallai fod wedi dweud wrth rywun.

Wrth ystyried deinameg y teulu a rôl partner Oedolyn Y, sef Oedolyn E, ar yr aelwyd, ymddengys fod Oedolyn E wedi mynd yn llai gweladwy. Mae Oedolyn A yn disgrifio Oedolyn E fel rhywun a aeth o fod yn fenyw gyrfa lwyddiannus i fod yn rhywun dan reolaeth Oedolyn Y, a ddaeth yn ddibynnol ar alcohol a rhywun a fyddai'n meddwi ac yn mynd i'r gwely'n gynnar, gan ei gadael hi ac Oedolyn Y gyda'i gilydd. Mae Oedolyn E wedi gwadu ei bod hi'n gwybod unrhyw beth am y berthynas rhwng Oedolyn Y ac Oedolyn A, ac mae Oedolyn A yn dweud iddi gael ei brifo i'r byw pan glywodd fod Oedolyn Y wedi parhau i gael perthynas rywiol gydag Oedolyn E, gan ei bod yn meddwl ei fod yn ffyddlon iddi hi.

Mae Oedolyn A wedi bod yn cael help a chefnogaeth, gan gynnwys mewnbwn therapiwtig, am ddwy flynedd. Mae hi'n dweud bod hyn wedi ei helpu i ddeall pa mor fregus ydoedd pan gafodd ei chyflwyno i Oedolyn Y. Ei barn am Oedolyn Y yn awr yw ei bod hi'n 'ei gasáu' am yr hyn y mae wedi'i wneud iddi hi a'i merched. Rannodd Oedolyn A mai pan ganfu fod Oedolyn Y wedi cam-drin Oedolyn B y teimlai o'r diwedd y gallai ddatgelu'r cam-drin yr oedd hi ei hun wedi'i ddioddef. Roedd hi wastad wedi meddwl bod ei pherthynas hi gydag Oedolyn Y yn unigryw ac yn arbennig, ac felly ei bod wedi'i brifo i'r byw pan ddarganfu fod Oedolyn Y wedi bod yn cam-drin Oedolyn B hefyd.

Nid yw'r cam-drin a ddioddefwyd gan Oedolyn B yn cael ei archwilio yn yr adolygiad hwn gan ei fod y tu hwnt i'r cylch gorchwyl. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod hyn yn agwedd arall ar natur reolaethol a chamdriniol perthynas Oedolyn Y gyda'i blant ei hun a'i wyres a aeth heb ei chanfod am amser hir, gwaetha'r modd. Gan nad oedd Oedolyn B yn dymuno cyfrannu at yr adolygiad, nid yw'n bosibl archwilio o'i safbwynt hi sut y gallai'r achos hwn o gam-drin fod wedi cael ei amlygu na beth, os o gwbl, allai unrhyw weithwyr proffesiynol fod wedi ei wneud i ganfod yr achos o gam-drin yn gynharach.

Pan ydym yn ystyried ymchwil i gam-drin rhywiol o fewn teuluoedd, gallwn ddeall yn well beth yw'r ddeinameg mewn perthnasoedd o'r fath, pa mor gymhleth ydynt a pham y bu mor anodd i Oedolyn A adnabod natur gamdriniol ei pherthynas gydag Oedolyn Y. Yn ei geiriau hi ei hun, nid oedd yn ei hystyried ei hun yn ddioddefwr ac roedd hi'n ymrwymedig iawn i gynnal y berthynas a'i chadw'n gyfrinach. Cyflwynodd Oedolyn Y ddeinamig ymgynghorydd ysbrydol/seicig i mewn i'r berthynas, ac fe wnaeth hyn gymhleth natur orfodaethol a rheolaethol gafael Oedolyn Y ar Oedolyn A ymhellach ac roedd hi'n teimlo na allai wneud unrhyw beth am hynny felly fe ddaliodd i ganolbwyntio ar fod yn fam dda i'w phlant.

**Y Gwersi**

Mae'r gwersi o ran ymarfer ac o safbwynt sefydliadol wedi cael eu hadnabod o'r elfennau allweddol canlynol o'r adolygiad:

- Llunio llinell amser amlasiantaeth gyfunol a dadansoddiad cyfunol gan asiantaethau
- Digwyddiadau dysgu ar gyfer gweithwyr proffesiynol
- Cyfweliad gydag Oedolyn A
- Trafodaethau o fewn cyfarfodydd panel yr adolygiad
- Adolygu cofnodion achos (bwndel cyfreithiol)
- Dadansoddiad Adolygwyr Annibynnol a'r Cadeirydd
- Adolygiad o Lenyddiaeth
- Ystyried dau Adolygiad Achos Difrifol a gyhoeddwyd ac a oedd yn cynnwys materion cam-drin o fewn y teulu

Roedd y panel yn cytuno y byddai o werth ceisio cyngor proffesiynol ac ymgynghoriaeth broffesiynol gan rywun ag arbenigedd ym maes cam-drin o fewn y teulu. Mae Dr Sue Roberts o Brifysgol Abertawe wedi darparu peth mewnwelediad o ran ymarfer myfyriol i'r materion yn yr achos hwn, ac wedi cynnig cyngor ynghylch deunyddiau ymchwil priodol i'r adolygwyr gyfeirio atynt. Cyfeiriwyd at y rhain yn y digwyddiad dysgu ac yn nhrafodaethau panel yr adolygiad.

**Y Digwyddiadau Dysgu**

Cynhaliwyd digwyddiad dysgu ym mis Hydref 2021, a chafwyd presenoldeb da gan uwch reolwyr yr holl asiantaethau perthnasol a fu'n ymwneud â'r teulu.

Cafodd yr asiantaethau canlynol eu cynrychioli yn y digwyddiad dysgu;

- Y Bwrdd Iechyd
- Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol (Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg)
- Heddlu Dyfed-Powys
- Gwasanaethau Oedolion yr Awdurdod Lleol (Diogelu Oedolion)

Roedd pob un o'r asiantaethau hyn wedi cynnal digwyddiad dysgu mewnol i baratoi eu cyflwyniadau a'u cwestiynau cyn y prif ddigwyddiad dysgu. Cafodd y digwyddiadau dysgu eu strwythuro yn y ffordd yma i ehangu'r grŵp o ymarferwyr a allai gyfrannu at y dysgu.

Cafodd y digwyddiad dysgu ei hwyluso gan yr Adolygydd Arweiniol ac Ail Adolygydd, gyda chymorth Cadeirydd Panel yr Adolygiad. Fel a ddisgrifir uchod, fe wnaeth y digwyddiad dysgu ystyried llinell amser y cysylltiadau a'r digwyddiadau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Mehefin 2018. Fe archwiliwyd y themâu canlynol yn seiliedig ar ganlyniad ymchwil a materion a gododd o ystyried digwyddiadau a gafwyd o fewn y teulu.

- Natur fregus Oedolyn A fel plentyn
- Profiadau yn ystod plentyndod (cam-drin domestig, cam-drin ac esgeuluso emosiynol, materion ymlyniad posibl gyda'r fam fiolegol)
- Dim ymwneud â'r tad biolegol nes ei bod yn ddeuddeg oed – effaith tad absennol
- Cam-drin o fewn y teulu/llosgach – gwadiadau cryf trwy gydol cyfnodau o feichiogrwydd ac ymchwiliadau
- Gorfodaeth a pherthnasoedd rheolaethol (defnyddio ymgynghorydd ysbrydol/seicig i reoli'r dioddefwyr)
- Effaith bod yn feichiog dro ar ôl tro gan ddechrau pan oedd yn dair ar ddeg
- Effaith ffactorau hanesyddol sylweddol ym mywyd y teulu hwn e.e. troseddu blaenorol gan Oedolyn Y

Lleisiau Plant;

- Beth allai fod wedi bod yn digwydd ar gyfer Oedolyn A ar yr adeg y dechreuodd y berthynas gamdriniol ac wedi hynny
- Pa effaith y mae'r cam-drin wedi'i chael ar gyfer plant Oedolyn A, ac a yw eu lleisiau wedi cael eu hystyried trwy gydol yr amser

Gofynnwyd i weithwyr proffesiynol ystyried y cwestiynau canlynol (caiff yr ymatebion hyn eu crynhoi yn yr adran ganlynol):

- Beth aeth yn dda yn eich asiantaeth chi; pa feysydd ydych chi wedi'u hadnabod fel enghreifftiau o ymarfer da?

DRAFFT

- Beth ydych chi'n teimlo nad aeth yn dda yn eich asiantaeth chi?
- Beth ydych chi'n ei wneud yn wahanol yn awr o ran ymarfer/gweithdrefn, a beth yw pwyntiau dysgu mwyaf eich asiantaeth?
- Beth yw'r camau gweithredu yr ydych chi'n teimlo bod angen i'ch asiantaeth chi eu cymryd i sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgir yn newid yr hyn y byddwch yn ei wneud yn y dyfodol?

**Gwersi o ran Ymarfer ac o safbwynt Sefydliadol**

*Nodwch bob pwynt dysgu unigol sy'n codi yn yr achos hwn (gan gynnwys amlygu ymarfer effeithiol) ynghyd ag amlinelliad byr o'r amgylchiadau perthnasol.*

**Gwersi o ran Ymarfer ac o safbwynt Sefydliadol**

Wrth ystyried y cyd-destun hanesyddol yn yr adolygiad hwn ac yn enwedig Oedolyn Y a'i gefndir, mae'n bosibl y gallai ei ymddygiad troseddol fod wedi dechrau cyn iddo gam-drin Oedolyn A. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth wedi'i chyflwyno i gadarnhau hyn, ac eithrio'r wybodaeth am y digwyddiad a fu yn ystod ei blentyndod. Mae llawer y gellid ei ddysgu am Oedolyn Y, ei berthnasoedd blaenorol a'i ymddygiadau a'i gymhelliad i droseddu, ond mae hyn y tu allan i gylch gwaith a llinell amser yr adolygiad hwn ac ym ymwneud ag ymarfer hanesyddol y tu allan i'r awdurdod lleol cyfredol; felly nid ydym wedi ymdrechu i ddilyn y trywydd ymholi hwn. Fodd bynnag, rydym wedi cofnodi rhai o'r gwersi o ymchwil i gam-drin rhywiol o fewn y teulu, ac rydym hefyd wedi ystyried peth ymchwil ddiddorol i Gwlwm Trawma a Syndrom Stockholm o ystyried yr ymlyniad cryf a ddangoswyd gan Oedolyn A tuag at Oedolyn Y fel ei chamdriniwr.

Un o'r ffactorau allweddol i atal y berthynas gamdriniol barhaus rhwng Oedolyn Y ac Oedolyn A a ddaliodd i fodoli am nifer o flynyddoedd yw nad oedd yn hysbys pwy oedd tad plant Oedolyn A trwy gydol y cyfnodau lu o feichiogrwydd a gafodd, gan gynnwys y rhai a ddigwyddodd cyn ei bod yn un ar bymtheg a hithau o dan 'oedran cydsynio'. Pe bai ymchwiliadau wedi cael eu cynnal gan ddefnyddio DNA i brofi tadolaeth plant cyntaf Oedolyn A, yna efallai y byddai'r berthynas gamdriniol wedi cael ei chanfod yn gynharach. Nid yw'n glir pa un a wnaeth yr awdurdod lleol yr oeddent yn byw ynddo ar y pryd ystyried hyn fel posibilrwydd a/neu pha un a ddaeth i'r casgliad nad oedd ganddo bryder neu seiliau digonol o wneud hynny. Yn yr un modd, pe bai Oedolyn A wedi bod â hyder yn unrhyw un o'r gweithwyr proffesiynol a gyfarfu ar yr adeg pan oedd yn dal yn blentyn, cyn i'r broses o baratoi i ddibenion rhyw ymsefydlu a phe bai wedi teimlo'i bod yn gallu datgelu ei pherthynas gydag Oedolyn Y, efallai y byddai help wedi bod ar gael yn gynharach. Mae hyn i gyd yn wybodaeth a ddaw gyda synnwyr trannoeth ac mae'r tu hwnt i gylch gwaith yr adolygiad.

Mae'n werth nodi, gan y gallai ein helpu i ystyried yn y dyfodol, pe baem yn dod ar draws amgylchiadau tebyg, y gall fod angen i ni feddwl a allai'r person ifanc fod yn ddioddefwr cam-drin ac yn benodol cam-drin o fewn y teulu, a sut y gallwn gymryd camau amddiffynnol pan nad yw'r person ifanc yn fodlon neu'n gallu datgelu'r cam-drin. Rydym yn cydnabod bod ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth gyfredol am baratoi i ddibenion rhyw a chamfanteisio'n rhywiol yn rhoi mewnwelediad gwell i weithwyr proffesiynol nag oedd yn debygol o fod ganddynt bum mlynedd ar

hugain yn ôl, ac mae'r trafodaethau yn y digwyddiadau dysgu wedi cadarnhau hyn. Y gobaith yw y gallai'r adolygiad hwn ddarparu peth mewnwelediad a rhai gwersi defnyddiol o ystyried y cyd-destun hanesyddol yn ogystal â'r digwyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y llinell amser.

Wrth gynnal yr adolygiad hwn o fewn terfynau'r canllawiau a'r llinell amser y cytunwyd arni, mae ffocws ein gwersi'n digwydd o'r adeg pan ddaw'r cam-drin a ddioddefwyd gan Oedolyn A yn hysbys i asiantaethau yn Ne Cymru. Mae'n dda nodi bod llawer o dystiolaeth o ymarfer da gan nifer o asiantaethau o ran ymateb i'r atgyfeiriad ac enghreifftiau cadarnhaol o ddyfalbarhad gan unigolion o ran parhau i arfer chwilfrydedd proffesiynol mewn perthynas â'r teulu yma.

**Gwersi perthnasol o archwilio'r themâu ac o adolygiadau blaenorol**

**Adolygiadau blaenorol**

Rhoddodd y panel ystyriaeth hefyd i'r crynodebau gweithredol o ddau Adolygiad Achos Difrifol yn Lloegr[7]. Mae'r Adolygiadau Achosion Difrifol hyn a gynhaliwyd yn Swindon yn 2004 a Sheffield yn 2009 yn nodi hanesion achosion tebyg i'r Adolygiad Ymarfer Plant hwn. Mae'r ddau'n cynnwys cam-drin rhywiol o fewn y teulu gyda phlant lluosog yn cael eu cenhedlu gan eu tad-cu dros gyfnod maith, yn ogystal â sawl beichiogrwydd na wnaeth barhau am y cyfnod llawn. Mae'r ddau Adolygiad Achos Difrifol yn disgrifio ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol; yn yr Adolygiad Achos Difrifol yn Swindon, disgrifir hyn tuag at y gweithwyr proffesiynol ac yn yr Adolygiad Achos Difrifol yn Sheffield tuag at y dioddefwyr. Mae'r gwersi o fewn yr Adolygiadau Achosion Difrifol hyn yn ymwneud yn bennaf â phrosesau, gweithdrefnau a hyfforddiant.

Ceir rhai nodweddion tebyg rhwng yr Adolygiad Achos Difrifol yn Sheffield a'r Adolygiad Ymarfer Plant hwn mewn perthynas â gwybodaeth broffesiynol am ddefnyddio, a hyder mewn defnyddio, profion DNA mewn achosion o losgach a cham-drin rhywiol. Mae'r adolygiad cyfredol yn adlewyrchu'r adolygiadau blaenorol hynny o ran canfod bod gweithwyr proffesiynol yn teimlo rhwystredigaeth gyda'r cyfreithlondeb sy'n gysylltiedig â'r broses sgrinio DNA. Teimlir y byddai sgrinio cynharach wedi darparu'r eglurder a oedd yn ofynnol; fodd bynnag, fe wrthododd Oedolyn A gytuno â'r cais am gael sgrinio ac felly roedd hi'n dal yn anhysbys pwy oedd tad y plant yn ystod yr ymholiadau cychwynnol. Mae newidiadau i'r gyfraith o ran rhoi cydsyniad ar gyfer beth fyddai'n ymyriad corfforol (ymosodiad yng ngolwg y gyfraith) yn fater dadleuol.

**Cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu**

Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar 'Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol - Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl 2018'[8] a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gam-drin plant yn rhywiol a sut i atal ac ymateb i hynny.

Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol (CSA) wedi cyhoeddi negeseuon allweddol o ymchwil i gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu[9] y cyfeirir atynt isod.

[7] ADOLYGIAD ACHOS DIFRIFOL GAN BWYLLGOR AMDDIFFYN PLANT ARDAL SWINDON MEWN PERTHYNAS Â THEULU 'B', CRYNODEB GWEITHREDOL Medi 2004, Sylvia Duncan Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol

Adolygiad Achos Difrifol gan Fwrdd Diogelu Plant Sheffield ar y cyd â Bwrdd Diogelu Plant Swydd Lincoln, Crynodeb Gweithredol, Mewn perthynas â: Theulu Q, Yr Athro Pat Cantrill, Awst 2009

[8] Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar 'Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol - Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl 2018

[9] Negeseuon allweddol o ymchwil i gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu Di McNeish a Sara Scott DMSS Research, Mehefin 2018

Dylai ymarferwyr sy'n dod i gysylltiad â phlant a'u teuluoedd geisio rhannu gwybodaeth yn rheolaidd gyda rhieni/gofalwyr am adnoddau sydd ar gael a'r angen i fod yn ymwybodol o'r ffyrdd y gallant helpu i gadw'r plant yn eu gofal yn ddiogel rhag cam-drin plant yn rhywiol. Dylai hyn gynnwys dealltwriaeth am yr effaith y gall cam-drin plant yn rhywiol ar-lein heb gyswllt ei chael ar blant. Gellir cefnogi dysgu gan ymarferwyr mewn nifer o ffyrdd; trwy ledaenu gwybodaeth ac adnoddau, trwy ddysgu ar-lein a thrwy godi ymwybyddiaeth a hyfforddi'n uniongyrchol. Gellir hyrwyddo ymarfer da trwy gynnwys diogelu fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd timau a thrwy oruchwyliaeth. Gall hyn gynorthwyo asiantaethau i adnabod anghenion dysgu ymarferwyr.

Yn 2018, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid i Stop it Now! Wales[10] i ddatblygu chynnal ymgyrch a oedd wedi'i fwriadu i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol trwy alluogi'r cyhoedd i chwarae rhan fwy gweithredol yn y gwaith o atal achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Fe wnaeth yr ymgyrch 'Child Sexual Abuse – What we all need to know'[11] gyfleu cyngor a gwybodaeth allweddol i'r cyhoedd trwy godi ymwybyddiaeth a hynny'n cynnwys y cyfryngau traddodiadol, y cyfryngau cymdeithasol ac adnoddau. Ar yr un pryd, cafodd sesiynau dysgu ar gyfer rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd eu darparu ar draws pob un o chwe rhanbarth y Byrddau Diogelu Plant Rhanbarthol. Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi hyrwyddo'r digwyddiadau a'r adnoddau hyn i gyd yn helaeth gydag ymarferwyr, gofalwyr a rheini fel rhan o'i waith i weithredu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol.[12]

Mae ymchwil[13] wedi canfod pedair effaith debygol o ganlyniad i gam-drin plant yn rhywiol:

- Rhywioli trawmatig (lle mae rhywioldeb, a theimladau ac agweddau rhywiol yn datblygu'n amhriodol)
- Ymdeimlad o fradychu (oherwydd niwed a achoswyd gan rywun yr oedd y plentyn yn dibynnu'n hanfodol arnynt)
- Ymdeimlad o fod yn ddiymadferth (o ganlyniad i fynd yn groes i ewyllys y plentyn yn gyson).
- Gwarthnodi (lle mae cywilydd neu euogrwydd yn cael eu hatgyfnerthu ac yn dod yn rhan o hunanddelwedd y plentyn).

At y rhain gellir ychwanegu cyfrinachgarwch (gan gynnwys yr ofn a'r arwahanrwydd y mae hyn yn eu hachosi) a dryswch (am bod y plentyn yn rhan o ymddygiad sy'n teimlo'n anghywir ond a gychwynnwyd gan oedolion y maent yn ymddiried ynddynt). Er nad yw'r effeithiau hyn yn unigryw i gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu, mae'r cyfuniad ohonynt a'u dwyster yn y cyd-destun hwn yn gwneud y profiad yn arbennig o niweidiol. Fel rhan o ddysgu gwersi, mae gweithwyr proffesiynol wedi gorfod ystyried y cyfyng-gyngor a oedd yn gysylltiedig â gweithio gydag Oedolyn A fel dioddefwr a oedd yn blentyn, ond hefyd fel oedolyn â phlant, a hithau'n parhau i fyw gyda'i cham-driniwr ac yn rhoi ei plant mewn perygl o'i herwydd. Nid yw hyn yn syml ac mae ymdrin â'r holl gymhlethdodau a'r ddeinameg yn yr achos hwn wedi bod yn brawf ar weithwyr proffesiynol sydd wedi parhau i fod â ffocws ar amddiffyn a pharhau i wneud lles a budd pennaf y plant yn greiddiol i'w gwaith bob amser, gan weithio'n sensitif gydag Oedolyn A.

TERFYNOL

[10] Stop it Now! Wales
[11] Stop it Now! Wales – What we all need to know
[12] Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol, Llywodraeth Cymru (2019)
[13] Negeseuon allweddol o ymchwil i gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu Di McNeish a Sara Scott DMSS Research, Mehefin 2018

Er bod plant yn ei chael yn anodd iawn dweud wrthym am y niwed y maent yn ei brofi, gallant ddangos arwyddion emosiynol, ymddygiadol a chorfforol eraill o'r cam-drin y maent yn ei ddioddef. Mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol yn meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i adnabod pan all plant fod yn dangos iddynt bod rhywbeth o'i le, yn ogystal â dangosyddion posibl ymddygiad sy'n gyfystyr â cham-drin rhywiol yn y rhai a all fod yn eu cam-drin. Hefyd, ceir rhai ffactorau o fewn y teulu neu'r amgylchedd a all gynyddu cyfleoedd i gam-drin ddigwydd, a bydd deall beth yw'r rhain yn ein galluogi i leihau'r risgiau a meithrin cryfderau pan ydym yn pryderu. Mae Templed Arwyddion a Dangosyddion newydd y Ganolfan Cam-drin Plant yn Rhywiol[14] yn helpu gweithwyr proffesiynol i gasglu arwyddion a dangosyddion ehangach cam-drin rhywiol a chreu darlun o'u pryderon.

*"It is essential that children's disclosure is not used as the threshold for action with regard to safeguarding. Many children never disclose, while others may disclose partially or retract allegations of abuse. This clearly indicates that much work is needed to support children's disclosures – but, rather than placing responsibility on the child to disclose, the emphasis should be firmly on increasing understanding of CSA and the disclosure process and providing a 'safe' place which can enable telling".*[15]

Mae cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu'n cyfeirio at gam-drin plant yn rhywiol sy'n digwydd mewn amgylchedd teuluol. Efallai y bydd neu na fydd cyflawnwyr yn perthyn i'r plentyn. Yr ystyriaeth allweddol yw a yw'r camdriniwr yn teimlo fel teulu o safbwynt y plentyn. Mae'n ddiddorol nodi bod Oedolyn A yn dweud wrthym bod Oedolyn Y wedi ei hargyhoeddi nad ef oedd ei thad biolegol er bod ei enw ar ei thystysgrif geni. Gallai hyn fod wedi gwneud gwahaniaeth i'w chanfyddiad hi am y berthynas fel un nad oedd yn gamdriniol, yn enwedig gan iddi ddweud ei bod yn croesawu'r sylw arbennig yr oedd yn ei gael ac yn ei gweld ei hun fel cyfranogwr parod. Dechreuodd y paratoi i bwrpas rhyw a'r cam-drin gyntaf pan oedd Oedolyn A yn blentyn a chan hynny nid oedd hi'n gallu rhoi cydsyniad gwybodus.

Prin y mae cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu'n ddigwyddiad unigol a gall barhau am nifer o flynyddoedd fel yn achos Oedolyn A. Mae llawer o'r cam-drin hwn yn y teulu'n aros yn gudd. Efallai y bydd ar blant ofn eu camdriniwr, neu na fydd arnynt eisiau i'w camdriniwr fynd i drafferth, efallai y byddant yn teimlo mai 'eu bai hwy' oedd eu bod wedi cael eu cam-drin, ac y byddant yn teimlo'n gyfrifol am yr hyn a fydd yn digwydd i'w teulu os byddant yn dweud. [16] Fe rannodd Oedolyn A ei bod wrth ei bodd yn cael ei babanod ac yn gofalu amdanynt ac felly bod datgelu ei perthynas gydag Oedolyn Y pan ddaeth yn oedolyn ddim yn opsiwn gan ei bod yn ofni colli ei phlant.

## Datgelu

Mae datgelu'n broses sy'n gymhleth, yn unigol ac yn aml yn boenus. Nid un digwyddiad ydyw – er ei fod yn aml yn cael ei gyflwyno felly – ac yn aml caiff ei ohirio.[17] Mae'n hollbwysig bod y fath gymhlethdod yn cael ei gydnabod a'i ddeall. Yn wir, gall plant brofi pwysau eithriadol ("pressure cooker effect") am bod arnynt o bosibl eisiau dweud eu bod wedi cael eu cam-drin ond a hwythau ar yr un pryd ddim am i eraill wybod.[18] Mae nifer o ffactorau personol, rhyngbersonol a diwylliannol-

[14] Y Ganolfan Cam-drin Plant yn Rhywiol: Templed Arwyddion a Dangosyddion
[15] Chouliara et al, 2011
[16] Responding to child sexual abuse: Learning from Children's Services in Wales Y Ganolfan Arbenigedd mewn Cam-drin Plant yn Rhywiol Sue Roberts Medi 2020
[17] Durham, 2003
[18] McElvaney, Greene, a Hogan (2012)

gymdeithasol yn rhwystr i ddatgelu achosion o gam-drin plant yn rhywiol.[19] Mae'r rhain yn cynnwys: pŵer ac awdurdod y cyflawnwr, ynghyd â dibyniaeth y dioddefwr/goroeswr arno/arni; uned deuluol a nodweddir gan drais a sianeli cyfathrebu cyfyngedig; ac arwahanrwydd cymdeithasol.[20] Mae rhwystrau eraill i ddatgelu a nodwyd yn y llenyddiaeth ymchwil yn cynnwys: ofni'r canlyniadau yn dilyn datgelu; pryderon ynghylch adweithiau pobl eraill, yn arbennig peidio â chael eu credu; pryderu am ddiogelwch pobl eraill; teimladau tuag at y camdriniwr[21]; a diffyg cyfle i ddweud am y cam-drin[22]. Eto, mae eraill yn cyfeirio at rwystrau gan gynnwys dioddefwyr ddim yn meddu ar y geiriau i ddisgrifio'r cam-drin; yn eu beio'u hunain am y cam-drin; neu'n ei weld fel rhywbeth "normal".[23]

Yn yr achos hwn, ymddengys fod cred Oedolyn A ei bod hi mewn perthynas gyda'i chamdriniwr, ynghyd ag ofnau y gallai hi golli ei phlant, wedi profi'n ddylanwadau pwerus o ran cynnal y cam-drin a sicrhau ei thawelwch. Efallai fod diffyg gwarcheidwad galluog ("absence of a capable guardian")[24] o fewn yr aelwyd wedi hwyluso'r cam-drin a'i rhwystro rhag datgelu hefyd.

Nid yw llawer o ddioddefwyr sy'n blant yn cydnabod eu bod yn cael eu cam-drin tan yn llawer hwyrach, yn aml pan ydynt yn oedolion. Gallwn weld mae fel hyn yr oedd hi'n sicr i Oedolyn A.

**Cwlwm Trawma**

Mewn cyhoeddiad gan PACE (Parents against Child Exploitation)[25], maent yn disgrifio effaith ffurfio Cwlwm Trawma ac yn awgrymu y gellir ei adnabod hefyd fel Syndrom Stockholm. Maent yn ei ddisgrifio fel "*a deep bond which forms between a victim and their abuser*".

Maent hwy'n awgrymu bod dioddefwyr cam-drin yn aml yn datblygu ymdeimlad cryf o deyrngarwch tuag at eu camdriniwr, er bod y bond yn niweidiol iddynt.

Maent hwy'n disgrifio'r amodau canlynol fel y rhai sy'n angenrheidiol i gwlwm trawma ddigwydd:

- Cael eu bygwth â pherygl gwirioneddol, a chredu bod perygl gwirioneddol
- Triniaeth lem ac ychydig bach iawn o garedigrwydd bob yn ail
- Bod wedi'u hynysu oddi wrth safbwyntiau pobl eraill
- Cred nad oes dianc i fod
- Gall symptomau bondio trawma amlygu eu hunain ar ffurf:
- Teimladau negyddol tuag at achubwyr posibl
- Cefnogaeth i resymau ac ymddygiadau camdrinwyr
- Anallu i gyflawni ymddygiadau a fydd o gymorth i gael eu rhyddhau/datgysylltu oddi wrth gamdrinwyr

TERFYNOL

[19] Tener a Murphy, 2015
[20] Schonbucher, Maier, Mohler-Kuo, Schnyder, a Landolt, 2012; Sivagurunathan, Orchard, MacDermid, ac Evans, 2019; Tener, 2018
[21] Morrison, Bruce, a Wilson, 2018
[22] Jensen et al., 2005
[23] Anderson, 2006, p413
[24] Clayton et al. 2018
[25] PACE UK

Yn ei chyfweliad gyda'r Adolygydd, mae Oedolyn A yn glir nad oedd yn ei hystyried ei hun yn ddioddefwr cam-drin plant yn rhywiol pan ddechreuodd ei pherthynas gydag Oedolyn Y. Disgrifiodd ei perthynas fel un lle'r oedd Oedolyn Y yn gariad iddi, a hithau'n mwynhau'r ffaith bod hynny'n gyfrinach. Mae erthygl gan Julich (2018)[26] yn gwneud cysylltiad rhwng Syndrom Stockholm a cham-drin plant yn rhywiol. Mae'r erthygl, sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o gyfweliadau anstrwythuredig, yn nodi bod y bond emosiynol rhwng goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol a'r bobl a gyflawnodd y cam-drin yn eu herbyn yn debyg i'r un yn y berthynas ddau gyfeiriad bwerus sy'n ganolog i Syndrom Stockholm fel a ddisgrifiwyd gan Graham (1994).

Mae gweithwyr proffesiynol wedi ehangu'r diffiniad o Syndrom Stockholm i gynnwys unrhyw berthynas lle mae dioddefwyr cam-drin yn datblygu ymlyniad teyrngar, cryf wrth gyflawnwyr cam-drin. Mae rhai o'r poblogaethau yr effeithir arnynt gan y cyflwr hwn yn cynnwys carcharorion mewn gwersylloedd crynhoi, carcharorion rhyfel, plant sy'n cael eu cam-drin, a goroeswyr llosgach, dioddefwyr trais domestig, aelodau o gyltiau a phobl mewn amgylcheddau gwaith neu eglwysig gwenwynig.

Mae Syndrom Stockholm yn aml i'w gael mewn perthnasoedd gwenwynig lle mae gwahaniaeth pŵer yn bodoli, megis rhwng rhiant a phlentyn neu arweinydd ysbrydol chynulleidfawr. Gellid adnabod agweddau ar Syndrom Stockholm yn ymatebion oedolion sydd wedi goroesi cam-drin plant yn rhywiol, yr ymddengys ei fod wedi effeithio ar eu gallu i hysbysu ynghylch troseddau'r troseddwyr. Mae cwlwm emosiynol, sydd wedi galluogi plant i gael eu cam-drin, wedi amddiffyn y troseddwr am hir wedi i'r cam-drin ddod i ben. Gallai goblygiadau Syndrom Stockholm gynnig mewnwelediadau gwerthfawr i'r rhai sy'n gweithio ym maes cam-drin plant yn rhywiol.

Gallwn weld agweddau ar gwlwm trawma rhwng Oedolyn A ac Oedolyn Y. O'i hatgofion hi am yr hyn a ddigwyddodd iddi pan oedd yn blentyn, nid oedd hi'n ystyried bod bygythiadau corfforol yn bresennol yn y berthynas nac ymdeimlad o ofn a thrais yn bodoli ond yr hyn yr oedd hi'n glir ynglŷn ag ef oedd yr angen i gadw'r berthynas yn 'gyfrinach' – colli ei phlant oedd ei hofn hi. Mae'n debygol bod Oedolyn Y yn ymwybodol iawn o hyn a'i fod yn wir wedi defnyddio hyn i reoli Oedolyn A yn seicolegol fel plentyn ac fel oedolyn a oedd yn rhiant.

Rydym yn ddiolchgar am gyngor a chymorth proffesiynol Dr Sue Roberts, Prifysgol Abertawe, a gyfeiriodd y broses ddysgu i ystyried ymchwil i gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu, fel a nodir isod:

**"Considerations of Dissociation, Betrayal Trauma, and Complex Trauma in the Treatment of Incest", David M. Lawson a Sinem Akay-Sullivan**

Yn yr adolygiad hwn o ymchwil, mae'r ffocws i raddau helaeth ar ddatgysylltiad goroeswyr cam-drin plant, yn enwedig pan fo'r cyflawnwyr yn bobl a oedd o fewn system ofalwyr y plentyn, a sut y gellir rhoi cyfrif am hyn trwy ddefnyddio cysyniad trawma bradychu. Mae'r ymchwil yn awgrymu, gydag ychydig o eithriadau, nad oes rhyw lawer yn ymddangos yn y llenyddiaeth sy'n integreiddio datgysylltiad, trawma bradychu, trawma cymhleth a llosgach at ddiben triniaeth. Diben yr adolygiad hwn yw archwilio'r berthynas rhwng datgysylltiad sy'n gysylltiedig â thrawma, trawma bradychu a thrawma cymhleth, a sut y gall deall y cysyniadau hyn a'u perthynas oleuo'r driniaeth ar gyfer llosgach. Gall hyn ddarparu mewnwelediad defnyddiol ar gyfer yr ymarferwyr hynny sy'n cael gorchwyl i gefnogi goroeswyr llosgach.

TERFYNOL

[26] Stockholm Syndrome and Child Sexual Abuse, Shirley Julich (2018)

**“The Secret of Intra-familial Child Sexual Abuse: Who Keeps It and How?”, Dafna Ten**

Mae’r erthygl hon yn dadansoddi canfyddiad menywod sydd wedi goroesi cam-drin plant yn rhywiol am yr aelodau o’r teulu a fu’n rhan o’i gadw’n gyfrinach a’u tactegau ar gyfer gwneud hynny. Fe wnaeth dadansoddiad o ugain o gyfweliadau manwl gyda menywod a oedd yn Israeliaid Iddewig ddatgelu ffyrdd unigryw o gadw’r gyfrinach. Roedd y rhain wedi’u priodoli i’r cyflawnwr, y fam a'r teulu. Roedd tactegau cadw cyfrinach yn cynnwys cyflwyno hunaniaeth gyhoeddus normadol neu hunaniaeth seicolegol ansefydlog, cyflwyno personâu lluosog, ail-fframio’r cam-drin, celu unrhyw olion o’r gyfrinach wedi iddi gael ei datgelu, fel pe na bai’r cam-drin wedi digwydd erioed, a gwneud cofadail o’r camdriniwr. Trafodir y tactegau hyn yng nghyd-destun tawelu, y model cyfeiriadedd perthnasoedd rhyngbersonol, a chysyniadau ehangach cyfrinachgarwch mewn cymdeithas. Ystyrir goblygiadau ar gyfer ymarfer proffesiynol ac ar gyfer cymdeithas, ac awgrymir agweddau newydd tuag at gyfrinachgarwch mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu.

Gall yr erthygl hon ddarparu rhywfaint o fewnwelediad i ymarferwyr sy’n gweithio gydag oedolion sydd wedi goroesi cam-drin o fewn y teulu megis Oedolyn A. Mae angen i’w phrofiad hi dros nifer o flynyddoedd o ran cadw a gwarchod y ‘gyfrinach’ gael ei archwilio gan ddefnyddio ystod o gysyniadau er mwyn cael dealltwriaeth lawn am gymhlethdod y berthynas rhwng ei chyflawnwr, ei ddioddefwyr eraill, gan gynnwys profiad aelodau eraill o’r teulu o’r perthnasoedd a’u dealltwriaeth amdanynt. Er nad yw’r erthygl i gyd yn ymwneud yn benodol â’r achos hwn, ceir rhai gwersi diddorol ar gyfer ymarferwyr ym maes cam-drin rhywiol o fewn y teulu.

**Cyflawnwyr ac egluro troseddu**

Mae gan y rhai sy’n cyflawni cam-drin o fewn y teulu fynediad rhwydd at ddioddefwyr a chyfleoedd i droseddu, yn aml o ganlyniad i’w rôl fel gofalwyr o fewn yr uned deuluol. Ar ffactorau amgylcheddol, mae cam-drin o'r fath yn digwydd fel arfer “(generally takes place) in a familial climate of pervasive fear and terror, in which ordinary caretaking relationships are disrupted”.[27] Fel sy’n digwydd gyda throseddwyr rhyw sy’n troseddu yn erbyn oedolion, ymddengys fod pobl sy’n cam-drin plant yn rhywiol yn grŵp cymysgryw sy’n rhannu rhai nodweddion gan gynnwys: “poor social skills, low self-esteem, feelings of inadequacy, a sense of worthlessness and vulnerability”. Hefyd, gall fod ganddynt anawsterau gyda pherthnasoedd ag oedolion, a hwythau’n dod i sylw gyda “feelings of inadequacy, humiliation and loneliness”.[28] Priodolir hyn yn aml i ymlyniadau cynnar negyddol wrth rieni a gofalwyr – o ganlyniad, gallant ofni perthnasoedd yn llawn ymddiriedaeth a’i chael yn anodd eu ffurfio.[29]

Mae ymchwil yn awgrymu bod rhai cyflawnwyr gwrywaidd sy’n cam-drin plant yn rhywiol yn debygol o fod wedi dioddef rhyw fath o gamdriniaeth a/neu gam-drin rhywiol yn ystod eu plentyndod, a/neu gefndiroedd teuluol camweithredol. Gall hyn arwain at ganfyddiadau camaddasol am y byd (“maladaptive perceptions of the world”).[30] Gall fod llurguniadau gwybyddol hefyd, sy’n tanategu ymddygiad troseddol sylfaenol[31] ac yn galluogi cyflawnwyr i fychanu a chyfiawnhau achosion o gam-drin.

[27] Anderson (2006, p410)
[28] Robertiello a Terry, 2007, p.512
[29] Horvath et al. 2014
[30] Sullivan a Sheehan, 2016, p77
[31] Horvath et al. 2014

Ar egluro troseddau rhywiol yn erbyn plant, mae Sullivan a Sheehan[32] yn nodi y gall diddordeb rhywiol mewn plant fod yn gymhelliad cyffredin ond nid yr unig un dros gam-drin. Yn hytrach na hynny, gall ffactorau eraill fod yn bresennol, gan gynnwys cael cadarnhad personol ("personal affirmation") ac awydd am bŵer a rheolaeth. Mae ymdeimlad o hawl ac o blant fel bodau rhywiol yn aml yn amlwg yn naratifau cam-drinwyr o fewn y teulu, yn enwedig tadau sy'n cam-drin eu plant eu hunain.[33] Yn eu gwaith ar ddamcaniaethau ymhlyg molestwyr plant, mae Ward a Keenan[34] at hawl fel rhywbeth a nodweddir gan ganfyddiad bod plant yn bodoli i ddiwallu anghenion rhywiol cyflawnwyr fel pen yr aelwyd. Gall hyn fod yn berthnasol yn yr achos hwn.

**Gwersi a adnabuwyd gan asiantaethau unigol**

**Gwasanaethau Plant**

**Ymarfer Da a Adnabuwyd**

- Ceir tystiolaeth bod staff gwasanaethau plant wedi dangos chwilfrydedd proffesiynol, gan adolygu a gwirio'r wybodaeth oedd ganddynt yn gyson i geisio gwneud synnwyr o 'hanes' cymhleth y teulu yma.
- Fe gasglodd gwasanaethau plant wybodaeth gan Awdurdodau Lleol eraill ac aelodau o'r teulu ehangach i oleuo'u dealltwriaeth am rwydwaith cymhleth iawn o unigolion a oedd yn cydfyw gydag Oedolyn A ac Oedolyn Y.
- Ceir tystiolaeth o ymarfer a chynllunio sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar draws gwasanaethau plant mewn cydweithrediad gydag ymarferwyr iechyd i geisio ymateb i anghenion unigol yr holl blant a oedd yn rhan o'r achos hwn.
- Ceir tystiolaeth o drafodaethau amserol rhwng y tîm diogelu oedolion a gweithwyr cymdeithasol gwasanaethau plant.
- Mae rheolwyr gwasanaethau plant wedi cydnabod yr angen i gynorthwyo staff i weithio gydag achosion cymhleth a thrawmatig. Maent wedi datblygu system pod[35] i wneud hyn.

**Safbwynt y Teulu**

- Roedd Oedolyn A yn gyndyn o ymgysylltu'n llawn ag asiantaethau i ddechrau am ei bod yn ofni colli ei phlant ac fe ddaliodd i ddweud am amser hir nad Oedolyn Y oedd tad ei phlant.
- Mae Oedolyn A yn cydnabod na fyddai ond wedi teimlo'i bod yn gallu ymddiried yn rhywun a datgelu'r cam-drin gan Oedolyn Y wrth rywun mewn swydd gyfrifol pe bai hyder ganddi yn y gweithwyr proffesiynol, a sicrwydd na fyddai'n colli ei phlant. Nid oedd staff mewn sefyllfa yn ystod yr ymchwiliad ac ymholiadau dilynol i roi sicrwydd o'r fath.

[32] Sullivan a Sheehan (2016, p76)
[33] Roberts, 2017
[34] Ward a Keenan (1999)
[35] Model ymarfer systemig o ymyrraeth gwaith cymdeithasol lle mae ymarferwyr o wahanol ddisgyblaethau'n cydweithio i ddarparu gwasanaeth ac ymateb fel uned, yn hytrach na bod cyfrifoldeb am achos yn cael ei ysgwyddo gan un gweithiwr allweddol unigol penodol.

**Gwersi**

- Gwasanaethau plant i barhau i atgyfnerthu'r angen i sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n dda ar y dangosyddion ac ymarfer gorau o ran yr ymateb amlasiantaeth i gam-drin a chamfanteisio'n rhywiol, a pharhau i gefnogi a hybu trefniadau gweithio amlasiantaeth cadarn i gyflawni deilliannau da i blant.
- Mae angen gwaith pellach i gynorthwyo ymarferwyr i weithio gyda hyder, yn enwedig mewn sefyllfaoedd aneglur o ansicrwydd proffesiynol lle mae pryderon yn bodoli, a'r rheiny weithiau'n hirsefydlog, ond lle nad yw'r trothwy ar gyfer ymyriad statudol wedi'i gyrraedd. Dylai'r gwaith hwn gynorthwyo ymarferwyr i archwilio a datblygu ffyrdd creadigol o ddatblygu perthnasoedd tymor hwy sy'n llawn ymddiriedaeth â theuluoedd gwrthwynebol sy'n amharod i ymgysylltu â gwasanaethau.

**Addysg**

**Ymarfer Da a Adnabuwyd**

- Ceir tystiolaeth o chwilfrydedd proffesiynol a staff yn adolygu a gwirio'r wybodaeth oedd ganddynt yn gyson i geisio gwneud synnwyr o 'hanes' yr achos.
- Fe wnaeth staff yn y gwasanaethau addysg godi pryderon mewn modd rhagweithiol ynghylch y teulu a chreu cysylltiadau â'r gwasanaeth presenoldeb i gynnig cymorth, gan weithredu'n briodol o fewn y cylch gwaith a oedd ar agor iddynt yn seiliedig ar yr amgylchiadau a ddaeth i sylw.

**Safbwynt y Teulu**

- Mae Oedolyn A yn cydnabod ei bod wedi ei gadw'n gyfrinach lwyr pwy oedd ei phlant a beth oedd gwir natur ei pherthynas ag Oedolyn Y.
- Mae Oedolyn A yn credu ei bod hi wedi gwneud popeth y gallai fod wedi'i wneud i sicrhau bod ei phlant yn cael gofal ac yn cael addysg mewn modd priodol.

**Gwersi**

- Mae'r gwasanaethau addysg wedi cydnabod yr angen i wneud gwelliannau i'w systemau cofnodi nad oeddent wastad yn dangos ymarfer da, ac maent wedi cyflwyno system gofnodi electronig ar gyfer diogelu mewn ysgolion
- Mae hyfforddiant ar gam-drin plant yn rhywiol wedi cael ei gyflwyno i staff mewn ysgolion.
- Fe wnaeth tîm yr adolygiad amlygu pwysigrwydd rôl y Tîm Diogelu a Phresenoldeb mewn Ysgolion a gyflawnodd rôl bwysig o ran monitro a chefnogi'r teulu y tu allan i ymyrraeth statudol ffurfiol o ran diogelu

**Yr Heddlu**

**Ymarfer Da a Adnabuwyd**

- Fe wnaeth staff adolygu a gwirio'r wybodaeth oedd ganddynt yn gyson i geisio gwneud synnwyr o 'hanes' yr achos.
- Bu'r heddlu'n cydweithio gyda phartneriaid a chydweithwyr mewn ardaloedd eraill i gasglu gwybodaeth gan bod Oedolyn Y ac Oedolyn A wedi bod yn byw y tu allan i'r ardal yn flaenorol.
- Fe ymchwiliwyd heb oedi i atgyfeiriadau a gyflwynwyd i'r Heddlu, ac fe arestiwyd pobl yn brydlon pan oedd digon o wybodaeth ar gael i weithredu.

**Safbwynt y Teulu**

- Mae Oedolyn A yn cydnabod ei bod wedi dweud celwydd wrth yr Heddlu er mwyn cynnal ei pherthynas gyfrinachol gydag Oedolyn Y, a'i bod yn ymwybodol ei bod yn anodd, heb dystiolaeth DNA, iddynt brofi neu gadarnhau'r honiadau a'r pryderon.

**Gwersi**

- Nododd y gwasanaethau plant fod oedi wedi bod cyn cyfleu gwybodaeth hanesyddol berthnasol gan yr Heddlu, rhwng y cyfarfodydd strategaeth a'r gynhadledd amddiffyn plant. Cafwyd yr wybodaeth hon yn hwyrach am bod rhaid i'r Heddlu wneud cais am gofnod microfiche a disgwyl iddo gyrraedd rhwng y ddau gyfarfod. Os yw'n debygol y bydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei cheisio, cydnabyddir y dylid nodi a chydnabod hyn yn y cyfarfod strategaeth cychwynnol.
- Roedd yr Heddlu'n cydnabod bod oedi wedi bod cyn mynd ar drywydd profion DNA. Fe wnaeth heriau cyfreithiol a rhwystredigaeth broffesiynol mewn perthynas â chael cydsyniad a'r cysylltiad rhwng hynny a chadarnhau pwy oedd y tad godi rhai penblethau diddorol i'r holl weithwyr proffesiynol ac asiantaethau.
- O ganlyniad, mae'r gwersi o'r achos hwn eisoes wedi cael eu datblygu i gael eu defnyddio fel hyfforddiant mewnol ar gyfer yr Heddlu, ac mae'r Heddlu'n ymwybodol o'r angen i ddefnyddio'u systemau DNA achrededig hwy eu hunain.
- Roedd yr Heddlu'n cydnabod bod yr 'arestiad cynnar' yn dilyn cael eu hysbysu ynghylch y datgeliad wedi ei gwneud yn bosibl diogelu plant, a bod y cyngor cynnar gan Wasanaeth Erlyn y Goron wedi ategu'r cam gweithredu cyflym hwn.

**Iechyd**

**Arfer Da a Adnabuwyd**

- Ceir tystiolaeth o staff iechyd yn arfer chwilfrydedd proffesiynol mewn perthynas â'r teulu hwn.

- Fe wnaeth gwasanaethau adolygu a gwirio'r wybodaeth oedd ganddynt yn gyson i geisio gwneud synnwyr o 'hanes' yr achos.
- Bu gweithwyr iechyd proffesiynol yn gweithio gyda chydweithwyr mewn ardaloedd eraill i gasglu gwybodaeth gan bod Oedolyn Y ac Oedolyn A wedi bod yn byw y tu allan i'r ardal yn flaenorol.
- Gellir gweld o'r cofnodion bod yr Ymwelydd Iechyd wedi mynd y tu hwnt i'r hyn a oedd yn ddisgwyliedig i ddiogelu'r teulu hwn ac wedi bod yn ddyfalbarhaus iawn o ran parhau i fod â diddordeb yn y teulu a'u goruchwylio.
- Ceir tystiolaeth o ymarfer a chynllunio sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar draws gwasanaethau plant ac iechyd i geisio ymateb i anghenion unigol yr holl blant yn y teulu yma.
- Fe wnaeth gweithwyr iechyd sawl ymgais ac fe ddefnyddion nhw amryw ddulliau i geisio ymgysylltu â'r teulu mewn modd creadigol a pharhaus. Yn aml roeddent yn gorfod gweithredu ar reddf bod pethau ddim yn iawn o fewn y perthnasoedd teuluol, ond nid oedd ganddynt unrhyw dystiolaeth eglur i gymryd camau amddiffynnol. Fe weithion nhw'n galed i gadw llwybrau ar agor i ymgysylltu'n barhaus â'r teulu.
- Mae'r feddygfa deulu bellach yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i rannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol y gall fod ganddynt bryderon ynghylch teulu. Maent hefyd yn gallu defnyddio'u systemau cyfrifiadurol i amlygu pryderon a rhannu gwybodaeth.

**Safbwynt y Teulu**

- Mae Oedolyn A wedi cydnabod y daith y mae wedi bod arni ers datgelu, ac mae'r help y mae wedi'i gael wedi ei helpu i ddeall ei statws fel dioddefwr yn well. Nid oedd hi'n teimlo'i bod yn gallu rhannu unrhyw beth a allai fod wedi helpu asiantaethau i ddarganfod yr hyn a oedd yn digwydd yn gynharach.

**Gwersi**

- Bu gan y Bwrdd Iechyd, fel un o asiantaethau partner allweddol Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, rôl allweddol o ran hyrwyddo camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol, a bydd yn parhau i ddarparu hyfforddiant ar Gam-drin Plant yn Rhywiol ac i hyrwyddo'r ymgyrch 'Stop it Now!', deunyddiau a hyfforddiant.
- Bydd y gwersi o'r achos hwn yn cael eu rhannu mewn hyfforddiant diogelu mewnol.
- Mae'r feddygfa deulu wedi cyflwyno gwasanaethau cwnsela ar safleoedd practisiau, a all leihau oedi gydag atgyfeiriadau ac sy'n hybu hygyrchedd i ddefnyddwyr gwasanaethau a all fod wedi bod yn ddioddefwyr cam-drin rhywiol.
- Mae'r feddygfa deulu'n cynnal cyfarfodydd amlddisgyblaethol rheolaidd, ac mae wedi cyflwyno mecanwaith amlygu i rybuddio'r holl staff ynghylch unrhyw bryderon sy'n

ymwneud â diogelu. Dylid rhoi ystyriaeth i gyflwyno'r model gofal hwn ym mhob meddygfa gofal sylfaenol.

- Ers y digwyddiadau yn y llinell amser, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno mecanwaith electronig ar gyfer rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud â diogelu yn ystod beichiogrwydd, sy'n golygu bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n amserol rhwng Gwasanaethau Bydwreigiaeth, Meddygon Teulu ac Ymwelwyr Iechyd.

**Gwasanaethau Oedolion**

**Ymarfer Da a Adnabuwyd**

- Ceir tystiolaeth o drafodaethau amserol rhwng gweithwyr y tîm diogelu oedolion a'r gwasanaethau plant.
- Mae Oedolyn A wedi cael cymorth da fel oedolyn sydd wedi cael ei cham-drin gan sefydliadau perthnasol yn y trydydd sector fel rhan o'r achos yn y llys teulu.

**Safbwynt y Teulu**

- Mae Oedolyn A yn dweud ei bod wedi cael budd o gymorth therapiwtig parhaus fel oedolyn.

**Gwersi**

- Fe wnaeth cydweithwyr yn y tîm diogelu oedolion ystyried a allent fod wedi cynnig cymorth i'r oedolion mewn perthynas â'u hanghenion o ran gofal a chymorth fel rhan o'r broses ymchwilio ac ar ôl ymchwilio.
- Cydnabyddir bod cyfle i wella systemau cyfathrebu rhwng Gwasanaethau Oedolion a Phlant lle canfuwyd fod plant ac oedolion yn fregus o fewn yr un teulu.
- Mae'r tîm diogelu oedolion yn cydnabod yr angen i ddatblygu'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio gyda'r gwasanaethau plant ymhellach.

**Crynodeb**

**Beth allai fod wedi bod yn well?**

Mae diffyg datgeliad eglur lle ceir pryderon ynghylch cam-drin plant yn rhywiol yn beth cyffredin. Rhoddodd yr ymchwiliad cychwynnol lawer o bwyslais ar gael datgeliadau gan aelodau'r teulu. Er bod hyn yn bwysig, dylid cydnabod bod tystiolaeth yn ehangach na datgeliad geiriol. Gwyddom fod plant yn fwy tebygol o ddangos i ni, trwy ymatebion ymddygiadol, eu bod yn cael eu niweidio, nag ydynt o ddweud wrthym. Fe wnaeth asiantaethau ystyried y pryderon a ddaeth i sylw a'r honiadau dienw, ynghyd â gwybodaeth hanesyddol ac at ei gilydd roeddent yn teimlo nad oedd y trothwy ar gyfer achos gofal wedi cael ei gyrraedd. Nid oedd unrhyw beth ar y pryd a oedd yn awgrymu bod ymddygiad y plant yn anarferol neu'n achosi pryder. Mae mudandod dethol (a oedd

yn cael ei ddangos gan un o'r plant) yn gyflwr nad yw'n anghyffredin ac nid yw o anghenraid yn arwydd o gam-drin. Ni fyddai wedi bod yn bosibl mynd ar drywydd profion DNA heb gydsyniad y teulu; byddai'r awdurdod lleol wedi gorfod mynd i'r llys i geisio gorchymyn ac nid oedd y cyfarfod strategaeth yn ystyried bod y dystiolaeth yn ddigonol, na bod y trothwy wedi cael ei gyrraedd i gychwyn unrhyw fath o achos.

Mae'r panel wedi ystyried, gyda mantais synnwyr trannoeth, gydag argaeledd ymchwil, gwybodaeth a datblygiad ymarfer ar hyn o bryd ym maes cam-drin plant yn rhywiol, y gallai camau gweithredu eraill fod wedi cael eu hystyried mewn perthynas â'r teulu hwn pan ddaeth Oedolyn A yn feichiog yn gynharach, pan oedd hi'n dal yn blentyn a chyn iddynt symud i Gymru. Roedd pryderon hanesyddol ynghylch y cyfnodau cynharach o feichiogrwydd a gafodd Oedolyn A a diffyg gwybodaeth pwy oedd tad pob un o'r plant. Fe archwiliwyd hyn ar y pryd, ond roedd gweithwyr proffesiynol a fynychodd y cyfarfodydd strategaeth yn ystyried, er y gallai'r pryderon a oedd yn cael eu trafod ynddynt eu hunain fod wedi golygu ei bod yn werth galw Cynhadledd Amddiffyn Plant, nad oedd tystiolaeth o niwed cyfredol ac nad oedd yn debygol o gyflawni'r deilliant a ddymunid, h.y. datgeliad. Fe drafododd yr asiantaethau bryder gwirioneddol y gallai'r teulu hefyd adweithio i ymyriad statudol trwy symud i ffwrdd, fel yr oeddent wedi'i wneud yn y gorffennol. Roedd yr holl asiantaethau'n cydnabod bod pryderon ynghylch y teulu hwn ac roeddent yn cytuno y dylai ymwneud parhaus gan asiantaethau a oedd yn gweithio gyda'r plant a'r oedolion barhau am gyhyd â phosibl. Roedd consensws bod yr asiantaethau hynny a oedd yn gweld y teulu, gan gynnwys y tîm diogelu a phresenoldeb mewn ysgolion, y nodwyd ei fod yn dîm o weithwyr cymdeithasol cymwysedig a phrofiadol, mewn sefyllfa dda i barhau i feithrin perthnasoedd â'r teulu i geisio deall mwy am y ddeinameg a'r materion yn y teulu.

Mae'n werth nodi, pe bai camau amddiffyn plant mwy cadarn wedi cael eu cymryd yn Lloegr gan yr asiantaethau a oedd yn ymwneud â'r teulu pan ddaeth Oedolyn A yn feichiog gyntaf fel plentyn, ac wedi hynny, lle nad oedd yn hysbys pwy oedd y tad, y gallai fod wedi bod yn bosibl ei hamddiffyn yn gynharach rhag cael ei cham-drin ymhellach. Cydnabyddir, serch hynny, bod y gwersi hyn y tu allan i gylch gwaith yr adolygiad hwn a'u bod yn ymwneud ag ymarfer hanesyddol y tu allan i'r awdurdod lleol cyfredol.

**Yr hyn a aeth yn dda a meysydd lle cafwyd ymarfer da**

Rhwng yr adeg pan gafodd asiantaethau eu rhybuddio ym mis Mawrth 2018 a cham-drin Oedolyn D gan Oedolyn Y, ceir tystiolaeth o ymarfer da. Mae'r llinell amser fanwl yn dangos fod asiantaethau wedi dilyn y gweithdrefnau a'r canllawiau cywir wrth ymdrin â honiad a oedd yn ymwneud ag amddiffyn plant fel a nodir yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008[36] a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[37], a'r gweithdrefnau cyfreithiol a nodir yn Nogfen Trothwyau Rhanbarthol a Chymhwystra CYSUR (Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru): 'Y Cymorth Iawn ar yr Adeg Iawn'.[38]

Bu'n rhaid i'r asiantaethau a fu'n gysylltiedig â'r achos ddatrys gwe hanesyddol cymhleth hir o gam-drin gan Oedolyn Y, a oedd yn cynnwys cam-drin rhywiol amlgenhedlaeth ac o fewn y teulu, ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol a oedd yn cynnwys trydydd partïon ac ymgynghorydd ysbrydol/seicig a ddefnyddiwyd gan Oedolyn Y i reoli Oedolyn A. Mae'r achos yn cynnwys nifer fawr o blant ac felly roedd cynllunio ar gyfer cymaint o blant ac ymateb i'w hanghenion unigol yn

[36] Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008
[37] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
[38] Dogfen Trothwyau Rhanbarthol a Chymhwystra CYSUR: 'Y Cymorth Iawn ar yr Adeg Iawn'

dasg enfawr. Bu'n rhaid i'r asiantaethau gynnal prosesau troseddol ac amddiffyn plant hefyd gan ymdrin â dwy system gyfreithiol. Mae felly'n gymeradwy gweld tystiolaeth o ymarfer cadarnhaol o'r fath yn wyneb yr heriau hyn.

**Ymarfer da generig a adnabuwyd:**

- Ceir tystiolaeth fod cyfathrebu da wedi cael ei gynnal o fewn asiantaethau unigol ac ar draws partneriaid amlasiantaeth.
- Ceir nifer o enghreifftiau o 'chwilfrydedd proffesiynol' yn cael ei arfer gan yr holl asiantaethau trwy gydol yr amser y maent wedi adnabod y teulu a gweithio gydag ef.
- Roedd trefniadau gweithio ar draws ffiniau'n weithredol ar draws yr holl asiantaethau.
- Mae cymorth parhaus i holl aelodau'r teulu'n ganmoladwy.
- Mae cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gam-drin plant yn rhywiol[39] yn mynd rhagddo ac wedi'i wreiddio ledled Cymru ac yn rhanbarth CYSUR.

TERFYNOL

[39] Cynllun Gweithredu Cenedlaethol: Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol, Gorffennaf 2019

**Gwella Systemau ac Ymarfer**

*Er mwyn hyrwyddo'r gwersi o'r achos hwn fe wnaeth yr adolygiad adnabod y camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd a'i aelod-asiantaethau a deilliannau gwella a ddisgwylir:*

<u>Camau gweithredu gofynnol</u>

Mae gwersi wedi cael eu hadnabod trwy gydol proses yr adolygiad. Mae'n bwysig nodi bod y pwyntiau isod wedi'u hadnabod gyda synnwyr trannoeth. Dylai unrhyw wersi gyfrannu at wella ymarfer yn y dyfodol a sicrhau bod gwasanaethau'n gadarn o ran amddiffyn plant. Mae'r adran isod yn adnabod y themâu sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad a'r gwersi y gellir eu dysgu ohonynt.

**Cam Gweithredu 1**

Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR) i sicrhau bod hyfforddiant ar gael i ymarferwyr ar draws yr holl asiantaethau mewn perthynas â dangosyddion cam-drin plant yn rhywiol ac ymarfer gorau o ran yr ymateb amlasiantaeth lle datgelir neu lle amheuir bod cam-drin plant yn rhywiol wedi digwydd.

**Cam Gweithredu 2**

Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR) i sicrhau bod Hyfforddiant Chwilfrydedd Proffesiynol ar gael i ymarferwyr ar draws yr holl asiantaethau, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau ataliol yn ogystal â thimau statudol lle y bo'n berthnasol.

**Cam Gweithredu 3**

Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR) i barhau i werthuso effeithiolrwydd y modd y cyflawnir y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol, a pharhau i hybu ymwybyddiaeth o'r amryw offer a chanllawiau sydd ar gael i ymarferwyr i'w cefnogi mewn gwaith diogelu lle datgelir neu lle amheuir bod cam-drin plant yn rhywiol wedi digwydd.

**Cam Gweithredu 4**

Bydd tîm diogelu a phresenoldeb mewn ysgolion yr Awdurdod Lleol yn datblygu ac yn gweithredu system i gynorthwyo swyddogion diogelu dynodedig mewn ysgolion i fynd ati'n rhagweithiol i adolygu unrhyw batrymau a thueddiadau diogelu, gan gynnwys nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol, a fydd yn ei gwneud yn bosibl darparu adnoddau neu roi cymorth pellach lle y bo'n briodol.

**Camau Gweithredu 5**

Bydd Tîm Diogelu a Phresenoldeb mewn Ysgolion yr Awdurdod Lleol yn mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo Pecyn Cymorth Cam-drin Plant yn Rhywiol a ddatblygwyd i gefnogi'r hyfforddiant presennol sydd ar gael i staff addysg mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol.

**Cam Gweithredu 6**

Heddlu Dyfed Powys i roi systemau a phrosesau ar waith:

- I sicrhau bod unrhyw oedi o ran cael gwybodaeth flaenorol yn cael ei gydnabod yn gynnar yn y broses ymholi dan Adran 47 ac yn cael ei gyfleu i bartneriaid.
- Pan fo'r Heddlu'n defnyddio DNA mewn ymchwiliadau o'r fath, i sicrhau y defnyddir cwmni sydd wedi'i achredu'n addas ar gyfer achosion troseddol.

**Cam Gweithredu 7**

Yr holl Feddygfeydd Teulu, lle y bo'n bosibl gwneud hynny, i gyflwyno mecanwaith amlygu i rybuddio'r holl staff ynghylch unrhyw bryderon sy'n ymwneud â diogelu.

**Cam Gweithredu 8**

Timau Diogelu a Gofal Cymdeithasol Gwasanaethau Oedolion a Phlant i adolygu systemau cyfredol sy'n bodoli pan fo pryderon a bregusrwydd yn cael eu hadnabod ar gyfer plant ac oedolion yn yr un teulu, ac adnabod cyfleoedd i ddatblygu a hyrwyddo llwybrau cyfathrebu clir.

TERFYNOL

<table>
<tr><th colspan="4">Datganiad gan yr Adolygydd/Adolygwyr</th></tr>
<tr><td>Adolygydd 1</td><td>Gladys Rhodes White</td><td>Adolygydd 2<br>(fel y bo’n briodol)</td><td>Diane Beacroft</td></tr>
<tr><td colspan="2">Datganiad o annibyniaeth ar yr achos<br>Datganiad cymhwyster Sicrhau Ansawdd</td><td colspan="2">Datganiad o annibyniaeth ar yr achos<br>Datganiad cymhwyster Sicrhau Ansawdd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Yr wyf yn gwneud y datganiad canlynol, sef cyn fy ymwneud â’r adolygiad dysgu hwn:<br><br>• Fy mod heb ymwneud yn uniongyrchol â’r plentyn na’r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ynghylch yr achos.<br>• Na fu gennyf unrhyw reolaeth llinell uniongyrchol ar yr ymarferydd/ymarferwyr cysylltiedig.<br>• Fy mod yn meddu ar y cymwysterau, yr wybodaeth a’r profiad a hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad.<br>• Bod yr adolygiad wedi cael ei gynnal yn briodol ac y bu’n drylwyr o ran dadansoddi a gwerthuso’r materion fel a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl.</td><td colspan="2">Yr wyf yn gwneud y datganiad canlynol, sef cyn fy ymwneud â’r adolygiad dysgu hwn:<br><br>• Fy mod heb ymwneud yn uniongyrchol â’r plentyn na’r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ynghylch yr achos.<br>• Na fu gennyf unrhyw reolaeth llinell uniongyrchol ar yr ymarferydd/ymarferwyr cysylltiedig.<br>• Fy mod yn meddu ar y cymwysterau, yr wybodaeth a’r profiad a hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad.<br>• Bod yr adolygiad wedi cael ei gynnal yn briodol ac y bu’n drylwyr o ran dadansoddi a gwerthuso’r materion fel a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Adolygydd 1 <br>(Llofnod)</td><td colspan="2">Adolygydd 2 <br>(Llofnod)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Enw Gladys Rhodes-White OBE<br>(Mewn Llythrennau Breision)</td><td colspan="2">Enw Diane Beacroft<br>(Mewn Llythrennau Breision)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad 07/09/2022</td><td colspan="2">Dyddiad 07/09/2022</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cadeirydd Panel yr Adolygiad<br>(Llofnod)</td><td colspan="2">Holly Gordon</td></tr>
<tr><td colspan="2">Enw<br>(Mewn Llythrennau Breision)</td><td colspan="2">Holly Gordon</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad</td><td colspan="2">07/09/2022</td></tr>
</table>

| **Proses Adolygiad Ymarfer Plant/Oedolion** |
|---|
| Fel a amlinellwyd, cynhaliwyd yr Adolygiad hwn yn unol â deddfwriaeth statudol a nodir yn adran 139 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chanllawiau sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf, *Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016).*<br><br>Rhoddwyd comisiwn i Gadeirydd Panel Annibynnol a dau Adolygydd Annibynnol a oedd, yn unol â'r canllawiau, yn annibynnol ar reolwyr yr achos ac yn meddu ar y profiad, galluoedd, gwybodaeth a sgiliau perthnasol fel a oedd yn ofynnol gan yr achos a'r amgylchiadau a oedd yn cael eu hadolygu.<br><br>Hoffai'r Adolygwyr Annibynnol a Chadeirydd y Panel gydnabod a diolch yn ddidwyll i Oedolyn A am ei chyfraniad i'r adolygiad hwn ac i'r ymarferwyr a gymerodd ran yn y digwyddiad dysgu, a'i gwnaeth yn bosibl i wersi amlasiantaeth gael eu hadnabod ac a roddodd gymorth i wneud hynny. |
| Y teulu wedi gwrthod cymryd rhan: naddo |

| **Ar gyfer defnydd Llywodraeth Cymru yn unig** | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad y cafwyd yr wybodaeth: ……………………………………… *(dyddiad)*<br><br>Llythyr cydnabod wedi'i anfon at Gadeirydd y Bwrdd: ………………………………………*(dyddiad)*<br><br>Wedi'i chylchredeg i arolygiaethau/ Arweinwyr Polisi perthnasol: ………………………………………*(dyddiad)* | | | |
| **Asiantaethau** | **Do** | **Naddo** | **Rheswm** |
| AGGCC | | | |
| Estyn | | | |
| AGIC | | | |
| ACEM | | | |
| APEM | | | |
| | | | |

**Atodiad 1**

**Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig**
**CYSUR 4/2019**

- **Cadeirydd Panel yr Adolygiad** – Holly Gordon
- **Adolygydd/Adolygwyr Annibynnol** – Gladys Rhodes-White OBE, Diane Beacroft

**Tasgau craidd:**

- Penderfynu a yw'r penderfyniadau a'r camau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r Bwrdd a'r gwasanaethau a enwir.
- Archwilio effeithiolrwydd trefniadau gweithio rhyngasiantaethol a'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau i'r plentyn a'r teulu.
- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chamau gweithredu er budd pennaf y plentyn ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau.
- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a'u hysbysu'n gyson ynghylch agweddau allweddol ar gynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfreithiol cyfochrog sy'n gysylltiedig â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu amlasiantaeth ar gyfer ymarferwyr a nodi'r adnoddau gofynnol.

**Ar gyfer Adolygiadau Estynedig YN UNIG. Yn ychwanegol at broses yr adolygiad, dylid ystyried y canlynol yn benodol:**

- A oedd gwybodaeth berthnasol flaenorol neu hanes y plant a/neu aelodau'r teulu yn hysbys ac a gawsant eu hystyried ym mhrosesau asesu, cynllunio a phenderfynu'r gweithwyr proffesiynol yng nghyswllt y plant, y teulu a'u hamgylchiadau? Sut gyfrannodd yr wybodaeth honno at y deilliant i'r plant?
- A oedd y cynllun amddiffyn plant (a/neu'r cynllun plentyn sy'n derbyn gofal neu'r cynllun llwybr gofal) yn gadarn ac yn briodol i'r plant hynny, y teulu a'u hamgylchiadau.
- A gafodd y cynllun ei weithredu, ei fonitro a'i adolygu'n effeithiol? A gyfrannodd pob asiantaeth yn briodol at ddatblygu a gweithredu'r cynllun amlasiantaeth?
- Pa agweddau ar y cynllun a weithiodd yn dda ac na weithiodd yn dda a pham? I ba raddau y cafodd asiantaethau eu dwyn i gyfrif ynghylch effeithiolrwydd y cynllun, gan gynnwys cynnydd yn erbyn y deilliannau y cytunwyd arnynt ar gyfer y plant. A alwyd y protocol ar gyfer datrys anghydfod i rym.
- A gafodd priod ddyletswyddau statudol asiantaethau a oedd yn gweithio gyda'r plant a'r teulu eu cyflawni.
- A oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a wnaeth atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyriaeth i faterion sefydliadol a

TERFYNOL

materion cyd-destunol eraill).

**Tasgau penodol Panel yr Adolygiad:**

- Adnabod a chomisiynu adolygwyr i weithio gyda *Phanel yr Adolygiad* yn unol â'r canllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig.
- Cytuno ar y ffrâm amser.
- Adnabod asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu i'r adolygiad, cynhyrchu llinell amser a chrynodeb cychwynnol o'r achos ac adnabod unrhyw gamau gweithredu ar unwaith a gymerwyd yn barod.
- Cwblhau gwybodaeth ychwanegol ynghylch Adolygwyr Annibynnol ac aelodaeth y Panel.
- Cynhyrchu llinell amser gyfunol, dadansoddiad cychwynnol a deilliannau dysgu.
- Mynd ati gyda'r adolygwyr i gynllunio digwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr, a hynny'n cynnwys adnabod y rhai a fydd yn bresennol a threfniadau i'w paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth.
- Mynd ati gyda'r adolygwyr i gynllunio'r trefniadau ar gyfer cyswllt â'r unigolion ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Cael ac ystyried y fersiwn ddrafft o'r adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi cael ei fodloni a bod unrhyw wersi ychwanegol yn cael eu hadnabod ac yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i Is-Grŵp yr Adolygiad Ymarfer Plant i gael eu hystyried a'u cytuno.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad yn dilyn cwblhau'r adolygiad a chyn cyhoeddi'r adroddiad.
- Bydd aelodau *Panel yr Adolygiad* yn ymlynu wrth egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018 wrth drin gwybodaeth bersonol fel rhan o broses yr Adolygiad Ymarfer Plant (gweler yr adran ar Rannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd).

**Tasgau penodol Is-Grŵp yr Adolygiad Ymarfer Plant:**

- Cytuno a chymeradwyo Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer pob achos a argymhellwyd ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Bwrdd i gael eu hystyried a'u cytuno.
- Monitro cynlluniau gweithredu sy'n deillio o Adolygiadau Ymarfer Plant i sicrhau bod yr holl argymhellion yn cael eu rhoi ar waith ar ran y Bwrdd.

**Tasgau penodol Bwrdd Diogelu Plant CYSUR:**

- Hysbysu Llywodraeth Cymru bod Adolygiad Ymarfer Plant yn cael ei gynnal.
- Ymlynu wrth raddfeydd amser ar gyfer cwblhau, yn unol â chanllawiau statudol.
- Cael adroddiad terfynol yr Adolygiad Ymarfer Plant a'r cynllun gweithredu a'u

TERFYNOL

cymeradwyo'n ffurfiol.

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu ar gyfer y Bwrdd sydd i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Anfon yr adroddiad at asiantaethau perthnasol ar gyfer sylwadau terfynol cyn ei gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau'r trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaeth gan Is-Grŵp yr Adolygiad, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau a ddisgwylir i wasanaethau'n cael eu hadnabod, eu monitro a'u hadolygu.
- Cynllunio ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad ar wefan y Bwrdd am isafswm o 12 wythnos ar ôl ei gwblhau.
- Cytuno i ddosbarthu'r adroddiad i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Cadeirydd y Bwrdd fydd yn gyfrifol am wneud pob sylw cyhoeddus a'r holl ymatebion i ddiddordeb gan y cyfryngau mewn perthynas â'r adolygiad nes bod y broses wedi'i chwblhau.

**Rhannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd**

Rhaid egluro perchnogaeth ar yr holl wybodaeth a dogfennaeth er mwyn cael y caniatâd priodol gan y sefydliad perthnasol cyn rhannu. Dim ond gwybodaeth a berchnogir neu a gychwynnwyd ganddynt hwy y gall sefydliadau ei rhannu.

Dylai'r cyfrifoldeb am ofyn am wybodaeth gan bob sefydliad (gan gynnwys gan ddarparwyr annibynnol) gael ei egluro a'i gytuno gan y Panel, fel y bo'n briodol.

Bydd egwyddorion cyfrinachedd a phwysigrwydd ymlynu wrthynt yn cael eu hamlinellu ym mhob un o gyfarfodydd y Panel i ailddatgan y ffiniau y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu oddi mewn iddynt:

- Wrth weithio gyda gwybodaeth sensitif mewn perthynas ag Adolygiad Ymarfer Plant, mae'r holl asiantaethau wedi cytuno ar ffiniau cyfrinachedd. Mae'r broses hon yn parchu'r ffiniau cyfrinachedd hynny ac fe'i cynhelir dan gyd-ddealltwriaeth am y canlynol:

o Bod cyfarfod y Panel yn cael ei alw dan ganllawiau '*Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant*' o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014.

o Y bydd datgelu gwybodaeth y tu allan i'r Panel y tu hwnt i'r hyn y cytunwyd arno yn y cyfarfod yn cael ei ystyried yn achos o dorri cyfrinachedd y gwrthrych ac yn achos o dorri cyfrinachedd yr asiantaethau dan sylw.

o Os teimlir bod cydsyniad i ddatgelu'n hanfodol, dylid ceisio caniatâd cychwynnol gan Gadeirydd y Panel, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn ôl yr egwyddor 'angen gwybod'.

o Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb yn y pen draw am ddatgelu gwybodaeth o'r Panel Amlasiantaeth wrth drydydd parti'n gorwedd gyda Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin

TERFYNOL

Cymru a rhaid cyfeirio’r mater at Reolwr Busnes y Bwrdd i gael awdurdod i ddatgelu.

TERFYNOL